



Rhif ymchwil gymdeithasol: 94/2026

Dyddiad cyhoeddi: 06/10/2026

Theori Newid ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol a'r Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (2022- 26)

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-407-2

Theori Newid ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol a'r Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (2022-26)

Awduron: Buckley, K.; Gonzalez-Ginocchio, B.; Hetherington, A.; Parry, J.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Buckley, K.; Gonzalez-Ginocchio, B.; Hetherington, A.; Parry, J. (2026). Damcaniaeth Newid ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol a'r Glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (2022-26). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 94/2026.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

Tabl y cynnwys

Geirfa	6
1. Cyflwyniad a chefnidir	8
1.1 Cyflwyniad	8
1.2 Cefndir a chyd-destun polisi.....	8
1.3 Maint ac effaith y broblem VAWDASV yng Nghymru.....	10
1.4 Strwythur yr adroddiad.....	13
2. Methodology.....	14
2.1 Nod ac amcanion yr ymchwil	14
2.2 Dyluniad a chamau'r ymchwil	15
2.3 Theori Newid VAWDASV.....	20
2.4 Cyfyngiadau'r ymchwil	22
3. Canfyddiadau	23
3.1 Trosolwg	23
3.2 Canfyddiadau trawsbynciol.....	23
3.3 Atal.....	24
3.4 Diogelu.....	28
3.5 Cefnogi	32
3.6 Prif wahaniaethau a meysydd cydweddu.....	36
4. Theori Newid VAWDASV	38
4.1 Diben y Theori Newid.....	38
4.2 Strwythur y Theori Newid.....	38
4.3 Sylfeini'r Theori Newid	38
4.4 Colofnau'r Theori Newid	40
4.5 Risgiau ac ystyriaethau.....	46
4.6 Sut y bydd newid yn digwydd (llwybrau achosol).....	47
4.7 O ymgysylltu i weithredu	47
5. Camau gweithredu ar gyfer cynllunio a pholisi yn y dyfodol	47
5.1 Prif negeseuon.....	48
5.2 Camau gweithredu ar lefel ymarfer.....	48
5.3 Camau gweithredu ar lefel prosesau.....	49
5.4 Camau gweithredu ar lefel systemau.....	49
5.5 Camau gweithredu ar lefel gymunedol.....	51

Atodiad A:.....	1
Theori Newid ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).....	1
Prif ragdybiaethau a rhagofynion: yr amodau sylfaenol sydd eu hangen i'r ToC weithio fel y dylai.....	1
Cynulleidfa darged	1
Rhanddeiliaid allweddol.....	2
Risgiau a heriau trawsbynciol.....	2
Problemau a materion sydd angen sylw: Prif faterion a gododd yn ystod yr ymchwil.....	3
Atal	3
Amddiffyn.....	3
Cymorth	4
Mewnbynnau: Adnoddau fydd yn cael eu defnyddio	4
Atal	4
Amddiffyn.....	5
Cymorth	5
Prosesau / gweithgareddau allweddol: Ffactorau hwyluso allweddol ar gyfer darparu effeithiol yn unol ag amcanion.....	6
Atal	6
Amddiffyn.....	6
Cymorth	7
Allbynnau: Mesurau clir drwy fewnbynnau a phrosesau effeithiol tuag at ganlyniadau	7
Atal	7
Amddiffyn.....	8
Cymorth	8
Canlyniadau: Canlyniadau mesuradwy'r mewnbynnau, prosesau a'r allbynnau tuag at gyflawni'r amcanion.....	9
Atal	9
Amddiffyn.....	9
Cymorth	10
Effeithiau hirdymor: Beth fydd y dystiolaeth o newid cynaliadwy a pharhaus gyda phob amcan?	10
Atal	10
Amddiffyn.....	11
Cymorth	11

Gwybodaeth ychwanegol 12

Deall y ToC VAWDASV 12

Amcanion Strategaeth VAWDASV 2022-2026 12

Geirfa

CAFCASS Cymru

Gwasanaeth Cyngchori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru

GSR

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

DA

Cam-drin Domestig

DVA

Cam-drin a Thrais Domestig

FGM

Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod

MeT

Meddygon Teulu

HBA

Cam-drin ar sail Anrhydedd

HMPPS

Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi

IDVA

Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol

ISVA

Cynghorwr Trais Rhywiol Annibynnol

MARAC

Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaethol

Y GIG

Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

NSPCC

Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant

ONS

Swyddfa Ystadegau Gwladol

PCC

Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

SSWSA

Dull System-Gyfan Cynaliadwy

ToC

Theori Newid

VAWG

Trais yn Erbyn Menywod a Genethod

VAWDASV

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

LIC

Llywodraeth Cymru

WWA

Cymorth i Ferched Cymru

1. Cyflwyniad a chefnidir

1.1 Cyflwyniad

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Skills for Justice, mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, i ddatblygu Theori Newid (ToC) ar gyfer gweithredu'r Strategaeth a Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn. Fframwaith yw ToC sy'n ceisio helpu i droi cysylltiadau polisïau lefel uchel yn ganlyniadau gweithredol a mesuradwy i gynorthwyo penderfyniadau strategol a gweithredu.

Mae datblygu'r ToC hwn yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â VAWDASV, gan gynnwys llywio'r fersiwn nesaf o'r strategaeth o 2027 ymlaen. Drwy greu cysylltiadau clir rhwng ymyriadau polisi a'u heffeithiau bwriedig, gellir defnyddio'r ToC fel offeryn i gynorthwyo cynllunio mwy strategol, cydlynu ar draws asiantaethau a dyrannu adnoddau'n effeithiol ar draws y tirlun VAWDASV gymhleth VAWDASV.

Mae'r ymchwil yn cyflwyno'r ToC fel offeryn ymarferol i helpu i gysylltu amcanion strategol lefel uchel ag ymyriadau penodol, canlyniadau mesuradwy a'r effaith ar y boblogaeth. Nod yr ymchwil yw helpu sefydliadau i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n o fewn yr ecosystem VAWDASV ehangach yn well, gan gefnogi atebolrwydd a gwelliannau sefydliadol ar draws y sector.

1.2 Cefndir a chyd-destun polisi

Mae [Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015 \(Deddfwriaeth y DU\)](#) yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhoi diwedd ar VAWDASV fel blaenoriaeth genedlaethol, gan osod y sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer cydweithrediad aml-asiantaethol. Mae'r Ddeddf yn mynegi'n glir bod LIC yn cydnabod nad mathau ynysig o drais yw trais rhywiol, cam-drin domestig ac unrhyw fath o gam-drin yn erbyn menywod, ond amlygiadau o drais ac anghydraddoldeb ar sail rhywedd, sy'n bethau na ellir eu datrys gan un sefydliad ac sydd angen ymateb systemig.

Ers cyflwyno'r Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y nod o roi diwedd ar VAWDASV yn flaenoriaeth genedlaethol, gan ganolbwyntio ar 3 philer:

- Atal: Caiff VAWDASV ei atal a, lle bo modd, caiff achosion eu nodi'n gynnar a chymerir camau ymyrryd cynnar er mwyn lleihau'r niwed i ddioddefwyr a goroeswyr.
- Amddiffyn: Mae prosesau priodol ac effeithiol ar waith i amddiffyn pob unigolyn sy'n profi VAWDASV.
- Cefnogi: Gall unigolion sy'n profi unrhyw fath o VAWDASV gael gafael ar gymorth priodol o ansawdd uchel, ble bynnag y maent yng Nghymru.

Gan ddefnyddio'r Ddeddf fel sylfaen ddeddfwriaethol, lansiodd Llywodraeth Cymru ei hail [Strategaeth Genedlaethol VAWDASV \(Llywodraeth Cymru\)](#) yn 2022, sy'n cwrdd â'r cyfnod

hyd at 2026. Nod y strategaeth yw rhoi terfyn ar VAWDASV a gwneud 'Cymru yn wlad sy'n saffach nag unrhyw le arall i fod yn fenyw'. Mae'r strategaeth 4 blynedd yn mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd a dull sy'n ystyriol o drawma, gan ganolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar a dwyn cyflawnwyr i gyfrif er mwyn mynd i'r afael â VAWDASV. Dyma 6 amcan y strategaeth:

1. Herio agweddau'r cyhoedd at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhlith poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth a chreu lle ar gyfer trafodaeth gyhoeddus, gyda'r nod o leihau ei amllder.
2. Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach, a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.
3. Canolbwyntio'n fwy ar ddwyn y rhai sy'n cyflawni cam-drin i gyfrif, a chefnogi'r rhai a all ymddwyn mewn ffordd gamdriniol neu dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.
4. Gwneud atal ac ymyrryd yn gynnar yn flaenoriaeth.
5. Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol wedi'u hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.
6. Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau priodol, o ansawdd uchel ac â digon o adnoddau, sy'n seiliedig ar anghenion a chryfderau, ac sy'n groestoriadol ac yn ymatebol ledled Cymru.

Er mwyn cyflawni'r 6 amcan hyn, datblygodd Llywodraeth Cymru a'r pedwar heddlu lleol (daearol) yng Nghymru ddull Glasbrint fel cynllun gweithredu lefel uchel, sy'n canolbwyntio ar [6 ffrwd waith \(Welsh Government\)](#) o amgylch y prif feysydd blaenoriaeth:

- aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus
- aflonyddu yn y gweithle
- mynd i'r afael â chyflawni cam-drin
- Dull System-Gyfan Cynaliadwy
- anghenion pobl hŷn
- anghenion plant a phobl ifanc

Mae'r ffrydiau gwaith hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at 3 o'r 7 nod llesiant cenedlaethol a sefydlwyd gan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 \(Deddfwriaeth Cymru\)](#), sef 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru Iachach, a Chymru o Gymunedau Cydlynus'.

Mae dull y Glasbrint yn gweithredu o dan drefniadau llywodraethu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Phlisma yng Nghymru, ac yn cynnwys cydweithio rhwng goroeswyr, asiantaethau datganoledig ac annatganoledig, sefydliadau'r trydydd sector a

gwasanaethau cymorth arbenigol drwy nifer o ffrydiau gwaith, fel rhan o Ddull System-Gyfan Cynaliadwy.

Mae'r Dull System-Gyfan Cynaliadwy yn sail i strategaeth VAWDASV ac yn cydnabod yr angen am ymateb amlasiantaethol cydgysylltiedig a chydweithredol gan sefydliadau sy'n gweithio ar draws nifer o sectorau (gan gynnwys cyfiawnder troseddol, iechyd, addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol) er mwyn ymateb yn effeithiol i VAWDASV.

Mae'r Theori Newid yn cynnig fframwaith ar gyfer archwilio a deall sut y caiff polisi cenedlaethol ei roi ar waith. Er bod yr ymchwil yn seiliedig ar gyfnod presennol y strategaeth (2020-2026), gellir defnyddio'r canfyddiadau i lywio'r gwaith o ddatblygu'r fersiwn nesaf o strategaeth VAWDASV, o 2026 ymlaen.

1.3 Maint ac effaith y broblem VAWDASV yng Nghymru

Mae VAWDASV yn un o'r heriau mwyaf i iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol sy'n effeithio ar Gymru. Pob flwyddyn, mae trais a cham-drin domestig (DVA) yn effeithio ar tua 5% o bobl 16 oed a throsodd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys tua 1.6 miliwn o fenywod yn flynyddol ([Ffigurau ar gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024](#); [Adroddiad ymchwil ar brofiadau rhai sy'n sefyll gerllaw o drais a cham-drin domestig yn ystod y pandemig COVID-19, Atal Trais Cymru, 2021](#)).

Roedd [fffigurau ar gamdrin domestig o Arolwg Troseddu Cymru a Lloeg \(CESW\), troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu a sefydliadau eraill ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025](#)) yn amcangyfrif, yn y flwyddyn yn dod i ben ym Mawrth 2025, ymhlith pobl 16 oed a throsodd:

- bod 7.8% (3.8 miliwn o unigolion) wedi profi cam-drin domestig
- bod 2.9% (1.4 miliwn) wedi profi stelcio
- bod 1.9% (900,000 o unigolion) wedi profi ymosodiad rhywiol

Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod tua 2.2 miliwn o fenywod ac 1.5 miliwn o ddynion 16 oed a throsodd wedi profi cam-drin domestig rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025; cyfradd gyffredinrwydd o tua 9.1% ymhlith menywod a 6.5% ymhlith dynion. Gan ddefnyddio'r data hwn, lluniodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cyhoeddi amrywiaeth o gyhoeddiadau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg, amcan-fesuriad cyfunol o gam-drin domestig, ymosodiad rhywiol a stelcio ar gyfer pobl a oedd wedi profi un neu ragor o'r troseddau hyn yn y flwyddyn yn dod i ben ym Mawrth 2025. Amcangyfrifwyd bod 10.6% o bobl 16 oed a throsodd (12.8% o fenywod ac 8.4% o ddynion), neu tua 5.1 miliwn o bobl, wedi profi o leiaf un o'r mathau hyn o drosedd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Yn 2015, deliodd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) â'r nifer uchaf erioed o achosion VAWDASV yng Nghymru, sef 6,878 o achosion, gan gynrychioli tua 6% o'r holl achosion drwy Gymru a Lloegr ([Pennod mewn llyfr ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015, Jurasz, 2018](#)). Yn y flwyddyn yn dod i ben ym

Mawrth 2025, roedd heddluoedd Cymru a Lloegr wedi cofnodi dros 800,000 o droseddau cam-drin domestig, sef 15% o'r holl droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Dros yr un cyfnod, cofnododd heddluoedd Cymru a Lloegr tua 1.4 miliwn o ddigwyddiadau a throseddau ymwneud â sefyllfaoedd cam-drin domestig. Mae digwyddiadau'n adlewyrchu faint y mae'r heddlu'n ymgysylltu â sefyllfaoedd cam-drin domestig lle y mae ymchwiliad cychwynnol yn cael ei wneud ond gan benderfynu na ddigwyddodd unrhyw drosedd, yn ôl safonau cofnodi. Dros yr un cyfnod, atgyfeiriwyd dros 76,000 o achosion at y CPS, gyda bron i 54,000 ohonynt yn symud ymlaen at gyhuddo ([Troseddu yng Nghymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025, Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025](#)).

Mae natur ryweddol y math yma o drais yn glir: mae gan fenywod risg uwch o brofi DVA o'i gymharu â dynion ([Nodweddion dioddefwyr cam-drin domestig, Cymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024](#)). Adlewyrchir y duedd hon nid yn unig yn nemograffeg yr unigolion sy'n adrodd troseddau cam-drin domestig (mae tua thri chwarter yn fenywod), ond hefyd yn yr unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth: Mae 95% o'r unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau cam-drin domestig risg-uchel (gan gynnwys Cynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaethol (MARAC) ac yn defnyddio gwasanaethau cymorth Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn fenywod ([Canllawiau MARAC ar gyfer meddygon teulu, SafeLives, dim dyddiad; Troseddu yng Nghymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025, Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025](#)).

Mae pa mor gyffredin yw cam-drin domestig yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau ethnig. Yn y flwyddyn yn dod i ben ym Mawrth 2025, roedd y gyfran uchaf o adroddiadau o gam-drin domestig ymhlith unigolion 16+ oed o grwpiau ethnig Du neu Ddu Prydeinig (11.5%), o'i gymharu â ffigurau cyfatebol ar gyfer grwpiau ethnig eraill: Cymysg (8.6%), Gwyn (7.9%), Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (6.1%) a grwpiau ethnig Eraill (6%) ([Nodweddion dioddefwyr cam-drin domestig, Cymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth, Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025](#)).

Mae DVA hefyd yn effeithio ar tua 130,000 o blant ledled y DU sy'n byw mewn cartrefi gyda cham-drin domestig risg uchel (risg sylweddol o niwed a / neu farw), ac amcangyfrifir y daeth tua 6% o holl blant y DU i gysylltiad â cham-drin domestig difrifol yn ystod eu plentyndod ([Adroddiad 'A Cry for Help', SafeLives, 2016](#)). Yn ôl adroddiadau'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), cafodd gam-drin domestig ei adnabod mewn 60% o achosion yn arwain at geisiadau gofal. Cafodd cam-drin domestig hefyd ei amlygu fel ffactor allweddol mewn dau o bob tri Adolygiad Ymarfer Diogelu Plant (CSPR, sef Adolygiad Achos Difrifol yn flaenorol), ac a elwir yn Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) yng Nghymru ([Adroddiad 'A Cry for Help', SafeLives, 2016](#)). Pan fydd plentyn yn marw neu'n cael niwed difrifol o ganlyniad i gam-drin neu esgeuluso, mae adolygiad achos statudol yn cael ei gwblhau i weld sut y mae sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn adnabod cyfleoedd i wella eu cydweithrediad a'u harferion diogelu.

Mae plant ac unigolion ifanc sydd wedi profi DVA yn dioddef o effeithiau cymedrol i ddifrifol ar eu hiechyd a'u lles, gan effeithio ar eu datblygiad tymor byr a thymor hir. Yn ôl ymchwil ([Doroudchi ac eraill \(2023\) ar gymhlethdodau seicolegol ymhlith plant a amlygwyd i drais domestig, 2023](#)) mae DVA yn arwain at broblemau seicolegol ac iechyd meddwl difrifol, gan

gynnwys gorbryderu, iselder, anhwylder straen wedi trawma (PTSD) a gorbryder gwahanu. Cafodd problemau ymddygiad hefyd eu hadnabod gan gynnwys problemau cysgu, ymddwyn yn fwy ymosodol a thorri'r gyfraith yn ifanc, gan gynnwys mwy o fechgyn yn cam-drin a mwy o enethod yn ddioddefwyr ac yn cam-drin. Mae DVA hefyd yn cael effaith negyddol ar addysg plant oherwydd ei gysylltiad â graddau academaidd is a pherfformiad salach yn yr ysgol. Yn gymdeithasol ac emosiynol, mae gan blant a effeithiwyd arnynt gan DVA lai o reolaeth dros emosiynau, yn ymgysylltu llai mewn gweithgareddau cymdeithasol, ac yn teimlo'n euog ([Cymhlethdodau seicolegol plant sydd wedi'u hamlygu i drais domestig: adolygiad systematig, Doroudchi ac eraill, 2023](#); [Plant yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, Barnardo's, dim dyddiad](#)).

Nodweddir VAWDASV gan nifer o wahanol fathau o gam-drin: cam-drin ar sail anrhydedd, Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGM), gorfodi priodi, stelcian a harasio, sydd i gyd yn effeithio ar gannoedd o bobl pob blwyddyn. Rhwng 2019 a 2020, cofnododd heddluoedd Cymru a Lloegr dros 2,000 o droseddau cam-drin ar sail anrhydedd (HBA) ar draws Cymru a Lloegr, gan gynnwys 1,810 o droseddau HBA eraill, 140 o achosion o orfodi priodi a 74 o achosion o FGM. ([Ystadegau ar droseddau cam-drin ar sail anrhydedd, Cymru a Lloegr, 2019 i 2020, Llywodraeth y DU, 2020](#)).

Mae VAWDASV nid yn unig yn effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl goroeswyr ond hefyd yn rhoi pwysau mawr ar y system gofal iechyd. Amcangyfrifir bod cost economaidd flynyddol cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr yn £66 biliwn ([Costau economaidd a chymdeithasol cam-drin domestig, y Swyddfa Gartref, 2019](#)). Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn gwario adnoddau sylweddol ar gwrdd ag anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl goroeswyr DVA yn y tymor byr a hir. Yn 2016, defnyddiodd hanner miliwn o oroeswyr DVA wasanaethau gofal iechyd am anafiadau a thrawma DVA ([Adroddiad 'A Cry for Help', SafeLives, 2016](#)). Mae'r sector iechyd yn gwario tua £1.73 biliwn y flwyddyn ar anghenion yn ymwneud â DVA, ac mae angen £176 miliwn arall ar wasanaethau iechyd meddwl i gefnogi goroeswyr ([Health Pathfinder: Adroddiad Technegol Llawn, Health Pathfinder, 2021](#)).

Yn ôl [ymchwil ddiweddar \(Women's Budget Group\)](#) gan Consortiwm Trais, Iechyd a Chymdeithas (VISION) Prifysgol Bryste, mewn partneriaeth â [Rape Crisis Cymru a Lloegr](#) a'r [Grŵp Cyllideb Menywod](#), mae cost economaidd gydol oes trais a cham-drin domestig yn erbyn plant (£148 biliwn) ac oedolion (£292 biliwn) mewn un flwyddyn yn fwy na £400 biliwn ar draws Cymru a Lloegr ([Invest to Protect: Funding Specialist Services to Reduce the £440 Billion Cost of Sexual Violence, Women's Budget Group, 2025](#)). Mae'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys costau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, y system cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymorth arbenigol, colledion economaidd o fod yn llai cynhyrchiol ac effeithiau hirdymor ar ansawdd bywyd goroeswyr. Fodd bynnag, nid yw'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys cost (ail)gartrefu. Mae'r ffigurau hyn yn dangos pa mor gyffredin ac eang yw VAWDASV, sy'n her anferth sydd angen ymatebion cydlynol ar draws nifer o wahanol sectorau.

Dangosodd astudiaeth *Cry for Health* ([Adroddiad 'A Cry for Help', SafeLives, 2016](#)) ganlyniadau da a manteision cost ymyrryd yn gynnar drwy ddefnyddio gwasanaethau IDVA wedi eu cyd-leoli gyda gofal iechyd, a gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau

iechyd ac arbenigol. Edrychodd yr astudiaeth ar weithrediad a pha mor effeithiol oedd gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol wedi eu cyd-leoli mewn pum ysbyty yn Lloegr yn eu hadrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac unedau mamolaeth. Dangosodd yr ymchwili fod gwasanaethau IDVA ysbyty wedi adnabod goroeswyr yn gynt (roedd cleientiaid yr eiriolwyr IDVA ysbyty wedi profi cam-drin am 30 mis ar gyfartaledd, o'i gymharu â 36 mis gan gleientiaid yn y gymuned), gan helpu i gyrraedd proffil gwahanol o oroeswr yn cynnwys unigolion ag anghenion cymhleth (fel iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a chyflyrau eraill a allai fod wedi eu cuddio o achosion atgyfeirio traddodiadol). Yn ôl yr astudiaeth roedd arbediad blynyddol (i drethdalwyr) o £2,050 am bob goroeswr o ran defnyddio gwasanaethau iechyd, gan gynnwys: £2,384 o arbedion gwasanaethau ysbyty, wedi'i gydbwysu yn erbyn £98 o arbedion gwasanaethau iechyd meddwl, £64 o arbedion meddygon teulu a £74 o arbedion gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (alcohol a chyffuriau). Roedd hefyd yn amcangyfrif cost uwch o £282 y flwyddyn o ran defnyddio gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yr ymchwili yn amcangyfrif y byddai'n costio £15.7 miliwn i bob darparwr aciwt y GIG i sefydlu gwasanaeth IDVA fel y gallai 15,000 yn fwy o oroeswyr ddefnyddio gwasanaethau arbenigol pob blwyddyn. Mae'r amcangyfrifon hyn yn dangos manteision ymyrryd yn gynnar, yn enwedig o gyd-leoli gwasanaethau IDVA mewn ysbytai ([Adroddiad 'A Cry for Help', SafeLives, 2016](#)).

1.4 Strwythur yr adroddiad

Mae [adran 2](#) yn amlinellu methodoleg yr ymchwili. Mae'n disgrifio nodau ac amcanion yr ymchwili, y cynllun dulliau cymysg, y 6 cham cyflawni, datblygiad y Theori Newid (ToC) o fewn y fethodoleg, a phrif gyfyngiadau'r astudiaeth.

Mae [adran 3](#) yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â goroeswyr a'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae'n dechrau gyda chanfyddiadau trawsbynciol ac yna'n cyflwyno tystiolaeth wedi'i threfnu o amgylch 3 colofn strategol Atal, Diogelu a Chefnogi, cyn nodi'r prif wahaniaethau, meysydd cydweddu a goblygiadau ar gyfer y ToC.

Mae [adran 4](#) yn cyflwyno Theori Newid VAWDASV. Mae'n egluro diben a strwythur y ToC, yn amlinellu ei sail, y rhagdybiaethau, y mecanweithiau newid, y risgiau a'r ystyriaethau, ac yn nodi'r llwybrau ar draws 3 colofn Atal, Diogelu a Chefnogi.

Mae [adran 5](#) yn nodi camau gweithredu ymarferol ar gyfer cynllunio a pholisi yn y dyfodol, wedi'u grwpio ar lefel ymarfer, prosesau, systemau a chymunedau.

Mae'r adroddiad yn gorffen gyda'r [cyfeiriadau](#) a'r atodiad: mae [Atodiad A](#) yn cyflwyno Theori Newid VAWDASV.

2. Methodology

Defnyddiodd yr ymchwil gymysgedd o ddulliau'n cyfuno casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol i ddatblygu ToC cyffredinol ar gyfer VAWDASV. Bwriedir i'r ToC fod yn lefel uchel oherwydd mae wedi'i ddylunio i weithio ar lefel VAWDASV traws-system sy'n cynnwys nifer o adrannau llywodraeth yn ogystal â nifer o sefydliadau ac ymarferwyr. Gan hynny roedd angen datblygu'r ToC ar y lefel uchel hon fel y gellir ei reoli ar gyfer holl randdeiliaid VAWDASV ar lefel strategol.

Dyluniwyd y fethodoleg fel proses 6 cham i sicrhau ymgysylltu â goroeswyr a rhanddeiliaid, a hefyd i ddilysu canfyddiadau'r ymchwil.

2.1 Nod ac amcanion yr ymchwil

Yn unol â chais Llywodraeth Cymru, roedd tri phrif nod i'r gwaith ymchwil hwn:

- datblygu Theori Newid (ToC) i ddeall y berthynas rhwng y polisi cenedlaethol ar VAWDASV (fel y disgrifir hynny yn Neddf VAWDASV 2015 a Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2022-2026) a'r canlyniadau i'r bobl y mae'r polisi cenedlaethol yn ceisio cael effaith arnynt
- datblygu ToC er mwyn deall sut y mae cynllun gweithredu lefel uchel Glasbriant VAWDASV yn cefnogi gweithrediad y strategaeth VAWDASV yng Nghymru

Yn ogystal â'r nodau allweddol, roedd gan yr ymchwil 5 amcan ymchwil:

1. Cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn cydweithredu a chyd-greu ToC fel rhan o ddull system-gyfan cynaliadwy o fynd i'r afael â VAWDASV yng Nghymru. Dylai'r rhanddeiliaid a recriwtiwyd adlewyrchu'r sefydliadau a'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhan o'r Glasbriant VAWDASV.
2. Defnyddio dull modelu rhesymeg i fapio elfennau craidd yn y ToC yn ymwneud â Strategaeth a Glasbriant VAWDASV. Bydd y Theori Newid yn sefydlu cyd-destun presennol Strategaeth a Glasbriant VAWDASV o'r dystiolaeth sydd ar gael, cadarnhau'r holl fewnbynnau ac allbynnau, nodi beth yw canlyniadau unrhyw weithgaredd a chytuno ar effaith fwriedig canlyniadau o'r fath.
3. Ystyried y rhagdybiaethau sydd wrth wraidd y Strategaeth VAWDASV ac ymchwilio i unrhyw risgiau, rhwystrau a dylanwadau allanol a allai gyfyngu ar effaith y cynllun gweithredu Glasbriant (gan gynnwys tueddiadau'r dyfodol).
4. Wedi'i oleuo gan y ToC, cefnogi rhanddeiliaid i ddeall camau gweithredu clir ar gyfer gwella a diwygio'r dull system-gyfan cynaliadwy o fynd i'r afael â VAWDASV yng Nghymru.
5. Deall y berthynas rhwng mesurau'r Llywodraeth a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus ar y canlyniadau a brofir gan bobl yng Nghymru a effeithiwyd gan VAWDASV (atal, amddiffyn a chymorth).

2.2 Dyluniad a chamau'r ymchwil

Roedd 6 cham i'r fethodoleg dulliau cymysg o ddatblygu Theori Newid ar gyfer Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV):

1. Y cam sefydlu a'r adroddiad
2. Adolygiad desg a dadansoddi data eilaidd
3. Gweithgareddau ymchwil cynradd yn cynnwys arolwg ar-lein, paneli ymgysylltu â goroeswyr a gweithdai rhanddeiliaid rhithiol.
4. Dadansoddiad o'r ymchwil
5. Dilysu'r ToC drwy 2 weithdy dilysu ToC a 2 gyfarfod Grŵp Cyngori
6. Adrodd ar allbynnau

Ar gyfer datblygu'r ToC hwn, roedd angen ymgysylltu ag ystod eang ac amrywiol o randdeiliaid i gyd-greu dull effeithiol.

2.2.1 Cam 1: Sefydlu

Yn ystod y cam sefydlu cychwynnol hwn, gweithiodd y tîm ymchwil gyda LIC i gytuno ar ofynion contract, cerrig milltir ac allbynnau'r ymchwil, y gofynion llywodraethu ac adrodd, strategaethau rheoli a lliniaru risg, yn ogystal â log gweithredu (yn cael ei ddiweddarau'n barhaus drwy gydol yr ymchwil), cynllun prosiect manwl a dull recriwtio rhanddeiliaid. Datblygwyd Hysbysiadau Preifatrwydd, taflenni gwybodaeth a ffurflenni cydsyniad ar gyfer Cyfranogwyr (yn Gymraeg a Saesneg), wedi eu cymeradwyo gan LIC a'u rhoi i gyfranogwyr. Roedd cymeradwyaeth foesegol yn cael ei drin yr Hysbysiadau Preifatrwydd fel rhan o dasg gyhoeddus LIC. Ar yr un pryd â'r broses hon, cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Brifysgol Abertawe, fel rhan o broses fewnol y Brifysgol.

Sefydlwyd Grŵp Cyngori cynrychiadol yn defnyddio proses mapio rhanddeiliaid LIC i sicrhau trosolwg a llywodraethu priodol drwy gydol y broses ymchwil. Cafodd adroddiad sefydlu'n cadarnhau dull y fethodoleg ei gymeradwyo gan LIC.

2.2.2 Cam 2: Adolygiad desg a dadansoddi data eilaidd

Cafodd adolygiad desg wedi'i dargedu ei wneud i helpu i roi cyd-destun i'r ymchwil ac i wella dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi ac ymarfer. Roedd yr adolygiad yn trafod enghreifftiau o ddulliau system-gyfan, atal trais a materion lles poblogaeth yn ymwneud â VAWDASV. Roedd yr ymarfer casglu tystiolaeth yma'n canolbwyntio ar adnabod arferion

gorau i helpu i ddatblygu dull system-gyfan Cymru gyfan cynaliadwy ar gyfer y strategaeth VAWDASV.

Defnyddiodd y strategaeth chwilio llenyddiaeth chwiliadau targed yn Google a Google Scholar i adnabod deunyddiau perthnasol a gyhoeddwyd o 2016 ymlaen. Cafodd y cyfnod hwn ei ddewis i gasglu'r dystiolaeth ddiweddaraf ar sail dulliau system-gyfan presennol a chyd-destun polisi Cymru, ers cyhoeddi Deddf VAWDASV (Cymru) 2015. Roedd y termau chwilio'n canolbwyntio ar ddulliau system-gyfan, ymatebion / dulliau integredig o ymdrin â VAWDASV / trais a / neu gam-drin domestig, atal trais / VAWDASV, a chydlynw aml-asiantaethol, yn ôl cyfarwyddyd LIC. Roedd hyn yn cynnwys adolygu cyfnodolion a adolygwyd gan gymhariaid, adolygiadau systematig, adroddiadau llywodraeth, dogfennau polisi, llenyddiaeth 'lwyd' ac adroddiadau trydydd sector. Yn gyntaf, sgriniwyd y ffynonellau am eu perthnasol i ffocws VAWDASV a'u cymhwysiad posib i gyd-destun Cymru. Ar ôl hynny, sgriniwyd y ffynonellau'n fanwl i adnabod cysyniadau allweddol, ffactorau hwyluso rhaglen effeithiol a rhwystrau i'r dull system-gyfan cynaliadwy.

2.2.3 Cam 3: Gweithgareddau ymchwil cynradd: arolwg ar-lein, gweithdai rhanddeiliaid a phaneli ymgysylltu â goroeswyr

Roedd y dulliau ansoddol yn cynnwys ymgysylltu helaeth drwy weithdai rhanddeiliaid, paneli goroeswyr, gweithdai dilysu ToC a chyfarfodydd Grŵp Cynghori, er mwyn ennill gwell dealltwriaeth o elfennau'r ToC, yr heriau gweithredu a'r ffactorau cyd-destun, yn ogystal â phrofiadau bywyd goroeswyr VAWDASV a staff rheng-flaen o wasanaethau cymorth arbenigol. Hefyd, rhannwyd [dolenni](#) (llwyfan cydweithrediad gweledol) gyda goroeswyr a rhanddeiliaid i gyfrannu'n ddi-enw at yr elfennau ToC ar ôl neu drwy gydol y gweithdai.

Gweithdai rhanddeiliaid

Datblygwyd y dull samplo ar gyfer gweithdai rhanddeiliaid mewn cydweithrediad â LIC ar sail eu rhwydweithiau presennol o weithwyr VAWDASV proffesiynol. Roedd y grwpiau rhanddeiliaid targed yn cynnwys cynrychiolwyr o LIC, heddluoedd Cymru, lechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Lleol GIG Cymru, cyrff trydydd sector, sefydliadau academiaidd, a gwasanaethau cymorth ac arbenigol VAWDASV ar draws Cymru. Dosbarthwyd bron i 80 o wahoddiadau, ar sail samplo pwrpasol i sicrhau cynrychiolaeth o wahanol sectorau, gan gynnwys sefydliadau o lywodraeth leol, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau iechyd a chymorth arbenigol. Cynhaliwyd 5 gweithdy rhanddeiliaid yn rhithiol i hwyluso hygyrchedd ar draws Cymru cyn trawsgrifio a dadansoddi eu recordiadau (roedd yr holl gyfranogwyr wedi cydsynio'n llafar i gael eu recordio).

Roedd pob gweithdy'n dilyn dull strwythuredig ar sail yr agenda ganlynol:

- cyflwyniad: agenda, nod a phwrpas, Gweledigaeth VAWDASV, model Glasbrint a ffrydiau gwaith
- ToC: beth ydy o, pam ei ddefnyddio, elfennau, enghraifft, gwneud synnwyr ohono

- adeiladu'r ToC: cyd-destun / nodau, cynulleidfa darged, problemau, rhwystrau a ffactorau hwyluso, heriau, mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau, effaith, rhagdybiaethau allweddol ac adolygu
- camau nesaf: gweithdai rhanddeiliaid ychwanegol, paneli ymgysylltu â goroeswyr, gweithdai dilysu ac adroddiad terfynol

Roedd pob gweithdy'n adeiladu ar y gweithdai blaenorol er mwyn diwygio dyluniad y gweithdai ar sail adborth gan gyfranogwyr. Daeth dros 30 o gyfranogwyr i'r gweithdai rhanddeiliaid, cyfanswm o 14 o sefydliadau. Y rhain oedd Age Cymru, Bawso (originally the Black Association of Women Step Out), Medr (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), Llwybrau Newydd, Cyngor Sir Casnewydd, Byrddau Iechyd Lleol GIG Cymru, NSPCC, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu De Cymru, Prifysgol Efrog, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Chymorth i Ferched Cymru. Oherwydd yr amser prin ar gyfer yr ymchwil, a bod y gweithgareddau ymchwil cynradd wedi digwydd dros yr haf, roedd yn anodd ymgysylltu â rhanddeiliaid a hynny efallai wedi effeithio ar gyfraddau cyfranogiad rhanddeiliaid.

Paneli ymgysylltu â goroeswyr

Cynhaliwyd 3 phanel ymgysylltu â goroeswyr yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2025 i lywio'r gwaith o ddatblygu Theori Newid ar gyfer Cynllun Gweithredu Strategaeth a Glasbrint VAWDASV Llywodraeth Cymru. Datblygodd dîm yr astudiaeth ddulliau ymchwil goroeswyr drwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru ac wedi eu goleuo gan fodel rhesymeg cychwynnol wedi'i greu gan y tîm Glasbrint ([Atodiad B](#)). Gwahoddwyd goroeswyr i fyfrio ar y newidiadau y teimlent oedd bwysicaf, a gweithgareddau a fyddai'n helpu i gynhyrchu'r newidiadau hynny ar sail eu profiadau bywyd, blaenoriaethau a phryderon.

Recriwtiwyd y goroeswyr i'r paneli ymgysylltu o banel cynghori goroeswyr Glasbrint LIC a 2 banel cynghori goroeswyr rhanbarthol, yn cynrychioli gwahanol ardaloedd daearyddol o Gymru (1 wledig, 1 drefol). Roedd cydlynwyr y paneli goroeswyr rhanbarthol wedi ymateb i alwad i gynnwys goroeswyr yn yr ymchwil, wedi'i chylchredeg drwy Rwydwaith Ymchwil VAWDASV Cymru. Mae'r paneli hyn yn bodoli fel ffordd o adael i goroeswyr gyfrannu'n ddiogel at ymchwil ac ymgynghoriadau, wedi eu cefnogi gan gydlynnydd panel sy'n asesu diogelwch a risg eu cynnwys yn y panel. Cyn ymuno â phanel, mae pob aelod yn derbyn cynefino a hyfforddiant gan gydlynnydd y panel, sydd hefyd yn cefnogi'r aelodau ag unrhyw effaith ddiogelwch neu emosiynol o fod yn cyfranogi, drwy gymorth a chyfeirio ymlaen at wasanaethau eraill.

Cafodd wybodaeth am y prosiect, gan gynnwys beth fyddai'n digwydd, aros yn ddi-enw a sut fyddai data'n cael ei gasglu a'i storio, ei rhannu gan bob cydlynnydd panel cyn cynnal y gweithdai, gyda'r aelodau grŵp yn dewis a oeddent eisiau ymuno â'r gweithdy. Cynhaliwyd y gweithdai dros Microsoft Teams, ond heb recordio sain-fideo. Roedd un gweithdy'n hybrid gyda rhai cyfranogwyr mewn ystafell gyda chydlynnydd y panel. Cynhaliodd gydlynwyr y paneli weithgaredd esmwytho gyda'r cyfranogwyr cyn i'r tîm ymchwil ymuno â'r alwad Microsoft Teams a chreu gofod i gael sgwrs emosiwn wedyn, ar ôl i'r tîm ymchwil adael.

Oherwydd bod goroeswyr yn tueddu i ddweud eu bod yn teimlo'n fwy cyffyrddus yn rhannu eu profiad â menywod yn unig, ac ar arweiniad cydlynwyd y panel, sicrhaodd y tîm ymchwil mai dim ond ymchwilwyr benywaidd fyddai'n hwyluso a / neu fynychu'r gweithdai panel.

Ar ddechrau pob panel ymgysylltu â goroeswyr, roedd gan gyfranogwyr gyfle i ofyn cwestiynau pellach am yr ymchwil a gofynnwyd iddynt gadarnhau'n llafar oedden nhw dal yn fodlon cymryd rhan. Roedd gan bob panel goroeswyr brotocol diogelu'n cael ei weithredu gan y cydlynwyd i sicrhau bod goroeswyr yn cael cymorth i gymryd rhan ac yn derbyn unrhyw gymorth a gwasanaeth cyfeirio ymlaen sydd ei angen arnynt. Roedd cydlynwyr y panel yn bresennol drwy gydol y gweithdai i gefnogi goroeswyr os oedd angen seibiant arnynt neu gymorth, neu eisiau ôl-ddilyn ar unrhyw ddatgelu a wnaed os oedd unrhyw arwydd bod rhywun mewn perygl o niwed, yn unol â phrotocol diogelu pob grŵp. Roedd gan yr ymchwilydd oedd yn cynnal y panel hefyd brofiad helaeth o weithio gyda goroeswyr gan sicrhau bod y cyfranogwyr yn gyffyrddus a hapus i barhau drwy gydol y gweithdy a'u hatgoffa y gallent stopio ar unrhyw adeg. Roedd y cyfranogwyr yn cael eu talu am eu hamser a'u cyfraniad i'r ymchwil. Cwblhawyd rhestr wirio foeseg i sicrhau bod yr ymchwil yn gyson â chanllawiau moeseg Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru (GSR) a hefyd wedi'i chymeradwyo gan Gyfadran Dyniaethau a Phwyllgor Moeseg Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Abertawe (Rhif Cymeradwyaeth: 1 2025 13189 13244).

Ar draws y 3 grŵp, cymrodd 14 o oroeswyr benywaidd ran yn yr ymchwil. Ni chasglwyd data personol gan y goroeswyr fel rhan o'r ymchwil; nid oedd felly'n bosib darparu gwybodaeth am nodweddion y sampl. Fodd bynnag, dywedodd y goroeswyr eu bod wedi profi cam-drin ar draws y sbectwm VAWDASV, gan gynnwys harasio, rheoli drwy orfodaeth, cam-drin economaidd, a mathau corfforol a rhywiol o VAWDASV, llawer ohonynt gan nifer o gamdrinwyr.

Gwnaed nodiadau di-enw o'r drafodaeth gan aelodau o'r tîm ymchwil oedd yn bresennol a chynhyrchwyd hefyd nodiadau cyfunol yn adlewyrchu'r drafodaeth. Cyfunwyd y nodiadau hyn a chafodd bwyntiau allweddol i oleuo datblygu'r ToC ar lefel ymarfer, proses, systemau a chymuned eu hadnabod gan arweinydd y mewnbwn goroeswyr, ynghyd ag egwyddorion ategol allweddol. Yna cafodd rhagdybiaethau, mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau eu hadnabod yn y data ynghyd â risgiau, ffactorau cyd-destun, dulliau newid a chanlyniadau anfwriadol posib. Cyfunwyd y data mewnweledol hwn â data o'r gweithdai rhanddeiliaid proffesiynol i oleuo datblygiad y ToC terfynol. Yn olaf, datblygwyd cyfres o gamau gweithredu ([Adran 5](#)) ar sail dadansoddiad thematig o safbwyntiau'r goroeswyr ar weithredu ToC, gan gynnig arweiniad allweddol gan oroeswyr ar sut i wneud y Strategaeth VAWDASV yn fwy effeithiol, cynhwysol a thrawma ymwybodol. Mae eu cyfraniadau hefyd yn tynnu sylw at esboniadau pellach, heriau a chyfyngiadau pwysig sydd angen eu hystyried a chael sylw os yw ei gweithrediad i lwyddo.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Llwyddodd yr ymchwil i sicrhau cyfranogiad helaeth gan rhanddeiliaid, gyda bron i 100 wedi cymryd rhan ar draws gwahanol fforymau ymgynghori, gan gynnwys: 5 gweithdy

rhanddeiliaid, 3 panel ymgysylltu â goroeswyr, 2 gyfarfod grŵp cynghori, a chyfarfodydd tîm prosiect a thîm darparu pob pythefnos gyda LIC. Cryfhawyd yr ymgysylltu hwn gan gyfranogiad gweithredol y 2 Gynghorydd VAWDASV Cenedlaethol yng Nghymru oedd yn y swydd pan wnaed yr ymchwil, gan sicrhau mewnbwn strategol lefel uchel drwy gydol y broses ddatblygu.

2.2.4 Cam 4: Dadansoddi'r ymchwil rhanddeiliaid

Dadansoddwyd data ansoddol o'r gweithdai rhanddeiliaid a'r paneli goroeswyr yn defnyddio dadansoddiad thematig drwy NVivo, pecyn meddalwedd sy'n helpu gyda dadansoddi a rhoi trefn ar ddata anstrwythuredig. Gyda chytundeb yr holl gyfranogwyr, cafodd bob gweithdy rhanddeiliaid ei recordio'n ddigidol a'i drawsgrifio. Codiwyd y data'n defnyddio fframwaith thematig oedd yn cael ei ddatblygu'n barhaus wrth i themâu godi o'r gwaith dadansoddi. Roedd y fframwaith yn cynnwys adnabod a dadansoddi themâu cychwynnol yn llyfr cod gan godio data'r cyfweiliadau'n systematig a diwygio'r llyfr cod wrth i'r gwaith dadansoddi barhau.

Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad, aeth y tîm ymchwil ati i adolygu'r data wedi'u codio o'r cyfweiliadau a'u defnyddio i ddatblygu dadansoddiad naratif. Fel rhan o'r broses, nodwyd y prif ganfyddiadau a'u categorio'n themâu ehangach o dan 3 colofn y Strategaeth VAWDASV (Atal, Diogelu a Chefnogi) ac yn ôl gwahanol lefelau'r fframwaith ToC. Roedd ffocws hefyd ar adnabod llwybrau achosol rhwng y gwahanol lefelau ToC, o broblemau i fewnbynnau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau. Roedd y dadansoddiad hefyd wedi helpu i adnabod ffactorau hwyluso a rhwystro ac ystyriaethau cyd-destun gan gynnwys rhagdybiaethau a rhagofynion. Cyfunwyd y canfyddiadau hyn â chanfyddiadau ar sail y paneli ymgysylltu â goroeswyr (a eglurir yn gynharach yn yr adran hon) i greu'r ToC.

2.2.5 Cam 5: Dilysu'r ToC

Fel rhan o'r prosesau dilysu a sicrhau ansawdd, cynhaliwyd 2 weithdy dilysu dynodedig gyda LIC a rhanddeiliaid i adolygu a diwygio'r ToC oedd ar ddyfod ym mis Medi. Yn y gweithdai hyn, roedd cyfranogwyr yn gallu cynnig eu hadborth a'u hawgrymiadau ar y ToC, herio rhagdybiaethau a chyd-gynhyrchu argymhellion pellach i oleuo'r fersiwn nesaf o'r Strategaeth a'r Glasbrint VAWDASV Strategy o 2026 ymlaen.

Cynhaliwyd 2 gyfarfod o'r Grŵp Cynghori rhwng Gorffennaf a Medi gyda bron i 25 o gyfranogwyr i gyd. Cynigiodd y cyfarfodydd hyn arweiniad drwy gydol y broses ymchwil gan roi cyfle i ddilysu canfyddiadau newydd.

2.2.6 Cam 6: Allbynnau adrodd

Cwblhawyd yr allbynnau adrodd canlynol fel rhan o'r ymchwil:

- adroddiad sefydlu a chofrestr risg

- camau agenda / cryno i roi diweddariad ar y prosiect
- adroddiadau cynnydd misol
- diweddariadau i'r Grŵp Cyngori a'r Bwrdd Partneriaeth Glasbrent
- gweithdai ac adnoddau ar gyfer datblygu'r ToC
- adroddiad drafft, yn ymgorffori'r ToC
- adroddiad terfynol yn cydymffurfio â GSR
- crynodeb gweithredol yn cydymffurfio â GSR

2.3 Theori Newid VAWDASV

Mae Theori Newid (ToC) yn darparu fframwaith sy'n galluogi dealltwriaeth ddyfnach o'r ffordd y mae polisi lefel uchel ac ymyriadau cysylltiedig yn trosi'n newid bwriadedig. Mae'n offeryn sy'n cynnwys cynrychiolaeth weledol (megis diagram, tabl neu lun) a naratif ategol sy'n helpu i egluro sut a pham y gall strategaeth neu weithgaredd penodol arwain at ddeilliant ac effaith benodol.

Mae amrywiaeth o offer mapio yn bodoli i helpu i archwilio ymyriadau a'r ffordd y disgwylir iddynt gyflawni eu deilliannau a'u heffeithiau bwriadedig, gan gynnwys mapio Theori Newid, fframiau rhesymeg, modelau rhesymeg, mapio buddion a mapio systemau. Gall y dulliau gweledol hyn fod ar sawl ffurf (megis diagramau llif llinol, trionglau cynllunio, diagramau cymhleth aml-haenog neu fapiau systemau) a gallant hefyd gynnwys delweddau trosiadol (er enghraifft, olwynion dannedd neu droellau).

Dylai'r dewis o gynrychiolaeth weledol gael ei seilio ar ddiben y gwaith, y gynulleidfa a chymhlethdod y system neu'r ymyriad sy'n cael ei fapio (Llyfr Magenta Trysorlys Ei Fawrhydi, 2020). Mae Theori Newid yn helpu i nodi, mapio a dadansoddi'r cysylltiadau rhwng mewnbynnau ac allbynnau a'r deilliannau a'r effeithiau dymunol.

2.3.1 Pam defnyddio Theori Newid?

Gan fod system VAWDASV yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid o wahanol sefydliadau a sectorau (megis awdurdodau lleol, asiantaethau datganoledig ac annatganoledig, y sector ieuchyd, cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymdeithasol), mae'n hanfodol bod y sefydliadau hyn yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol.

Mae Theori Newid yn gweithredu fel map ffordd i randdeiliaid ddeall sut y disgwylir i newid ddigwydd, gan amlinellu'r cysylltiadau achosol posibl rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, deilliannau ac effeithiau tymor hwy. Gall yr offeryn hwn gefnogi dealltwriaeth rhanddeiliaid o ffactorau cydgysylltiedig, nodi rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r cyddestun ehangach, helpu i liniaru risgiau a sicrhau bod strategaeth VAWDASV yn addas at ei diben ac yn debygol o gyflawni'r deilliannau a'r effeithiau disgwyliedig, yn enwedig ar gyfer goroeswyr VAWDASV.

Mae Theori Newid yn cynnig nifer o fanteision ar gyfer cynllunio strategol a gweithredu effeithiol, gan gynnwys:

- Eglurder a dealltwriaeth gyffredin: mae'n helpu i ddiffinio nodau ac amcanion y strategaeth, gan sicrhau dealltwriaeth ar y cyd o'r strategaeth a chydlynw mwy effeithiol o ymdrechion ar y cyd i gyflawni ei nodau a'i hamcanion.
- Map ffordd strategol: mae'n darparu fframwaith ymarferol sy'n llywio prosesau dylunio, gweithredu a gwerthuso.
- Aliniad rhwng adnoddau a deilliannau: mae'n sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd â'r canlyniadau bwriadedig drwy egluro'r cysylltiadau rhwng gweithgareddau, allbynnau a'r deilliannau a'r effeithiau dymunol.
- Gwell cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid: mae'n darparu dull clir o gyfathrebu nodau, prosesau ac effeithiau disgwyledig i randdeiliaid allweddol ac yn hyrwyddo partneriaethau cryfach.
- Gwerthuso a dysgu wedi'u hymgorffori: mae'n cynnwys fframwaith sy'n galluogi mesur cynnydd a dysgu, gan hwyluso gwerthuso yn y dyfodol.
- Yn annog newid cynaliadwy: mae'n helpu i gysylltu mewnbynnau tymor byr ag effeithiau tymor hir, gan sicrhau bod y deilliannau'n gynaliadwy.
- Sicrhau buddsoddiad: mae'n dangos yr effaith bosibl i'r llywodraeth neu gyllidwyr pan ddefnyddir adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon, gan gynyddu'r tebygolrwydd o sicrhau cyllid cynaliadwy.

2.3.2 Datblygu'r Theori Newid

Yn 2023, datblygodd tîm y Glasbrint fodel rhesymeg cychwynnol (gweler Atodiad B) a oedd yn mapio'r newidiadau dymunol a'r llwybrau perthnasol sy'n deillio o Strategaeth VAWDASV a chynllun gweithredu'r Glasbrint. Nododd y model rhesymeg hwn yr arferion, y prosesau, y systemau a'r cymunedau allweddol dan sylw, ynghyd â'r gweithgareddau a'r deilliannau disgwyledig.

Mae'r ymchwil bresennol yn adeiladu ar y fframwaith hwn i ddatblygu Theori Newid a fydd yn llywio polisi VAWDASV yng Nghymru. Mae'r ToC hwn yn helpu i greu map ffordd sy'n dangos sut mae polisi lefel uchel yn cysylltu ag ymarfer ar lawr gwlad, gan alluogi pob rhanddeiliad i ddeall ei rôl ei hun a rôl ei sefydliad wrth helpu i roi terfyn ar VAWDASV yng Nghymru.

Datblygwyd y ToC drwy broses gyfranogol a chyd-greadigol gyda goroeswyr VAWDASV a rhanddeiliaid allweddol sy'n gyfrifol am gomisiynu, dylunio a darparu gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau cymorth. Cryfhaodd y dull cydweithredol hwn ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb ar y cyd ymhlith y cyfranogwyr.

Datblygwyd y ToC drwy baneli ymgysylltu â goroeswyr, gweithdai rhanddeiliaid a gweithdai dilysu. Roedd panel arbenigol, y cyfeirir ato fel y Grŵp Cynghori, hefyd yn rhan o'r broses ymgynghori.

2.4 Cyfyngiadau'r ymchwil

Mae nifer o gyfyngiadau i'w hystyried mewn perthynas â'r ymchwil hon, yn enwedig y rhyngweithio cymhleth rhwng y dirwedd bolisi ddatganoledig ac annatganoledig y mae VAWDASV yn gweithredu o'i mewn. Mae strwythur datganoledig Llywodraeth Cymru yn creu cyfleoedd a heriau ar gyfer gweithredu'r strategaeth VAWDASV, a archwilir drwy gydol yr adroddiad hwn. Er mwyn i'r strategaeth VAWDASV fod yn llwyddiannus, mae angen hanfodol am gydlynw polisi rhwng Cymru a'r DU gyfan, tra hefyd yn addasu i flaenoriaethau ac anghenion Cymru.

Un cyfyngiad oedd bod Llywodraeth y DU yn datblygu Theori Newid ar yr un pryd ar gyfer ei strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG). Ar yr adeg y cynhaliwyd yr ymchwil, roedd gwaith Llywodraeth y DU yn dal i fynd rhagddo ac nid oedd unrhyw allbynnau ar gael i'w hadolygu cyn eu cyhoeddi. O ganlyniad, nid oedd modd i'r tîm ymchwil asesu'r graddau o aliniad rhwng polisi a strategaeth Cymru a'r DU.

Er mwyn mynd i'r afael â'r cyfyngiad hwn, seiliwyd Theori Newid Llywodraeth Cymru ar y dystiolaeth oedd ar gael ac adborth rhanddeiliaid. Y bwriad yw i'r ToC VAWDASV fod yn ddogfen "fyw a rhyngweithiol" a all aros yn hyblyg er mwyn ymgorffori diweddariadau yn y dyfodol ac unrhyw ganfyddiadau o Theori Newid VAW y DU pan fyddant ar gael. Rydym yn cynnwys argymhellion ar sut i greu Theori Newid fyw ac addasol sy'n parhau i edrych tua'r dyfodol ac sy'n gallu esblygu ochr yn ochr â datblygiadau cenedlaethol wrth gynnal ei ffocws ar flaenoriaethau Cymru.

Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn peri heriau sylweddol oherwydd yr amserlen ymchwil gyfyngedig ac amseriad y gweithgareddau ymgynghori, yn bennaf yn ystod cyfnod yr haf, a allai fod wedi effeithio ar gyfraddau cyfranogiad. Effeithiwyd ar gychwyn y gweithgareddau ymgysylltu gan yr amserlenni sy'n gysylltiedig â hysbysiadau preifatrwydd, cymeradwyaeth foesegol a phrosesau cyfieithu. Cyfyngodd y ffactorau hyn ar ehangder a nifer cyfranogiad rhanddeiliaid ar draws sawl sector. Gall natur amlasiantaethol ac aml-randdeiliol y system VAWDASV olygu bod rhai safbwyntiau perthnasol heb eu cynrychioli'n ddigonol er gwaethaf ymdrechion y tîm ymchwil i sicrhau ymgysylltu cynhwysol.

Canolbwyntiwyd sianeli ymgysylltu â goroeswyr yn gyfan gwbl ar Banel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr Llywodraeth Cymru, a hwyluswyd drwy rwydweithiau Llywodraeth Cymru ac yn unol â strategaeth ymgysylltu â goroeswyr Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, cynhaliwyd ymgysylltiad uniongyrchol â rhwydweithiau goroeswyr sefydliadau eraill, megis Cymorth i Ferched Cymru a New Pathways, drwy weithdai rhanddeiliaid gyda'u staff proffesiynol yn hytrach na thrwy baneli ymgysylltu â goroeswyr. O ganlyniad, gallai hyn fod wedi cyfyngu ar ystod y safbwyntiau goroeswyr a gasglwyd drwy'r ymchwil. Byddai ymchwil yn y dyfodol yn elwa ar ehangu llwybrau ymgysylltu â goroeswyr i ategu rhwydweithiau goroeswyr sefydledig Llywodraeth Cymru.

Nid oedd rhai sefydliadau, gan gynnwys y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC), yn gallu mynychu'r gweithdy dilysu. Er mwyn lliniaru'r cyfyngiad hwn, cyflwynodd y sefydliadau hyn friff polisi yn lle hynny i sicrhau bod eu hadborth a safbwynt eu sefydliad yn cael eu cyfleu'n glir i Lywodraeth Cymru.

3. Canfyddiadau

3.1 Trosolwg

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r gwaith ymgysylltu â goroeswyr a'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae'n dechrau gyda chrynodeb o'r canfyddiadau trawsbynciol, cyn cyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd gan oroeswyr a rhanddeiliaid yn ôl y pileri strategol - Atal, Diogelu a Chefnogi. Mae'r strwythur hwn yn amlygu'r prif themâu a'r materion penodol sy'n codi o fewn pob piler, ac yn dangos sut mae'r canfyddiadau hyn yn llywio'r Theori Newid (Adran 4).

Drwy gydol y canfyddiadau, mae safbwyntiau goroeswyr yn darparu mewnwelediad i brofiadau byw ac effaith y system, tra bod safbwyntiau rhanddeiliaid yn amlygu heriau strwythurol, gweithredol a pholisi. Gyda'i gilydd, maent yn cynnig darlun cynhwysfawr o sut mae'r system yn gweithredu a ble mae angen newid.

3.2 Canfyddiadau trawsbynciol

3.2.1 Safbwyntiau goroeswyr

Disgrifiodd goroeswyr yn gyson system sy'n anodd ei llywio ac sydd, mewn llawer o achosion, yn niweidiol. Roedd y prif faterion yn cynnwys:

- Profiadau o anghrediniaeth, bychanu a rhoi unigolion drwy drawma eto.
- Gwasanaethau darniog sy'n ei gwneud yn ofynnol i oroeswyr weithredu fel eu cydlynwyr eu hunain.
- Diffyg atebolrwydd clir, sy'n golygu nad yw ymatebion gwael yn cael sylw.
- Methiant i gwrdd ag anghenion sylfaenol, yn enwedig tai a sicrwydd ariannol.
- Profiadau o niwed parhaus drwy systemau statudol (er enghraifft, llysoedd teulu a gofal cymdeithasol).

Mae'r profiadau hyn yn aml yn atal pobl rhag ymgysylltu â gwasanaethau ac yn tanseilio adferiad. Felly, rhaid i ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau roi blaenoriaeth i ymddiriedaeth, diogelwch a hygyrchedd. Heb hyn, gall hyd yn oed ymyriadau sydd â bwriad da greu niwed neu arwain at ddatgysylltu.

3.2.2 Safbwyntiau rhanddeiliaid

Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod llawer o'r un heriau, ond yn eu disgrifio o safbwynt systemau a darpariaeth gwasanaethau:

- Cymhlethdod cydlynu amlasiantaethol, yn enwedig rhwng sectorau datganoledig ac annatganoledig.
- Cyfyngiadau ar adnoddau, gan gynnwys ansicrwydd cyllid a phwysau ar y gweithlu.

- Cyfyngiadau ar gasglu a rhannu data, sy'n effeithio ar y gallu i fonitro a gwerthuso.
- Diffyg eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd.
- Amrywiadau rhanbarthol yn y gwasanaethau a ddarperir.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod angen diwygiadau strwythurol i egluro cyfrifoldebau, gwella cydlynw a sicrhau perfformiad cyson ar draws y system.

3.3 Atal

3.3.1 Trosolwg

Yn gyffredinol, pwysleisiodd goroeswyr a rhanddeiliaid yr angen i wneud mwy na dim ond codi ymwybyddiaeth. Disgrifiwyd system lle mae gwaith atal yn anghyson, yn aml yn rhy gul yn ei dealltwriaeth o gamdriniaeth, ac yn anghymesur â maint neu natur newidiol y niwed. Mae atal mwy effeithiol yn gofyn am iaith ehangach sy'n cydnabod camdriniaeth nad yw'n gorfforol, addysg a chyfathrebu sy'n herio misogyny a normau niweidiol, cyfrifoldebau cliriach ar draws y system, a gwell data a thystiolaeth i gefnogi gweithredu cydgysylltiedig ledled Cymru.

3.3.2 Prif negeseuon

- Mae gwaith atal yn parhau'n anghyson ac nid yw wedi'i wreiddio'n ddigon cadarn, gyda bylchau o hyd mewn ymwybyddiaeth y cyhoedd, addysg, darpariaeth leol a gweithredu ar draws y system gyfan.
- Mae agweddau diwylliannol, gan gynnwys misogyny a'r ffaith bod camdriniaeth yn cael ei normaleiddio, yn parhau'n rhwystrau sylweddol, gan atgyfnerthu'r angen am ymyrraeth gynnar ac addysg ataliol gynhwysol.
- Mae angen egluro rolau, cryfhau cydlynw, sicrhau bod y gwaith dylunio'n cael ei lywio gan oroeswyr, a gwella data er mwyn gwneud gwaith atal yn fwy targedig, atebol ac effeithiol ledled Cymru.

3.3.3 Safbwyntiau goroeswyr

Cyfyngiadau ymdrechion atal cyfredol

Pwysleisiodd goroeswyr nifer o gyfyngiadau sylweddol sy'n rhwystro gwaith atal VAWDASV effeithiol. Un o'r prif faterion oedd bod y term "trais" yn rhy gul ac yn methu â chwmpasu'r ystod lawn o gamdriniaeth a brofir. Roeddent o blaid defnyddio'r term ehangach "camdriniaeth", a fyddai'n cwmpasu rheolaeth drwy orfodaeth, stelcio, cam-drin economaidd, niwed seicolegol a chamdriniaeth a hwylusir gan dechnoleg, gan gynnwys aflonyddu ar-lein, cam-drin ar sail delweddau a chamdriniaeth a hwylusir gan ddeallusrwydd artiffisial (AI). Mae'r mathau hyn o gamdriniaeth yn aml yn cael eu bychanu neu eu camddeall gan weithwyr proffesiynol, gan arwain at ymatebion annigonol. Galwodd goroeswyr am fabwysiadu'r derminoleg ehangach hon mewn polisi ac ymarfer, er mwyn sicrhau bod pob math o gamdriniaeth yn cael ei gydnabod ac yn cael ymateb priodol.

Roedd cryn rwystredigaeth hefyd ymhlith goroeswyr ynghylch y ffordd y mae camdriniaeth nad yw'n gorfforol yn cael ei bychanu mewn polisi ac ymarfer. Roeddent yn teimlo'n gryf y

byddai newid yr iaith a ddefnyddir yn arwain at gydnabyddiaeth ac ymatebion gwell gan weithwyr proffesiynol.

Pryderon ynghylch polisi a systemau

Roedd llawer o oroeswyr o'r farn bod datganiadau polisi eang, megis "rhoi terfyn ar VAWDASV" neu "mae pob menyw a merch yn ddiogel ac yn byw heb ofn", yn afrealistig ac, ar adegau, yn sarhaus. Roeddent yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod gwir raddfa'r broblem a chanolbwyntio ar bennu nodau cyraeddadwy. Dylai'r nodau hyn ddechrau drwy sicrhau bod gwasanaethau wedi'u hariannu'n ddigonol, wedi'u llywio gan drawma ac yn atebol. Pwysleisiodd goroeswyr fod yn rhaid i newid ystyrlon gael ei seilio ar ddisgwyliadau realistig a phrofiadau byw, gan nodi bod Cymru ymhell o fod yn wlad lle gall menywod a merched fyw heb ofn.

Atebolrwydd a ffocws ar gyflawnwyr

Pwysleisiodd goroeswyr dro ar ôl tro bwysigrwydd symud y ffocws at gyflawnwyr, yn hytrach na gosod y baich ar oroeswyr i brofi'r niwed a achoswyd iddynt drwy brosesau cyfiawnder troseddol hirfaith a blinedig. Roeddent o'r farn bod angen dull system gyfan cynaliadwy er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad cyflawnwyr. Heb ddealltwriaeth a chydweithio amlasiantaethol, mae goroeswyr yn parhau'n agored i niwed. Yn aml, nid yw rhai mathau o VAWDASV, yn enwedig aflonyddu a stelcio, yn arwain at ddigon o atebolrwydd i gyflawnwyr oherwydd diffyg arbenigedd proffesiynol a gorfodi gorchmynion amddiffyn yn annigonol. Mae cyflawnwyr cyfresol yn aml yn osgoi cael eu hadnabod oherwydd cyfathrebu gwael a gweithio tameidiog rhwng asiantaethau.

Heriau mewn ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus

Codwyd pryderon hefyd ynghylch cyrhaeddiad cyfyngedig ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus, yn enwedig y tu allan i ardaloedd trefol. Nododd llawer nad yw ymdrechion atal yn ddigon gweladwy y tu allan i Gaerdydd a chanolfannau trefol eraill. Galwyd am ymgyrchoedd sy'n cyrraedd cymunedau ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar addysgu bechgyn a grymuso merched. Tynnwyd sylw at anghydraddoldebau daearyddol, ac awgrymodd goroeswyr ddefnyddio bysiau, digwyddiadau cymunedol a grwpiau lleol i ledaenu negeseuon. Rhybuddiodd sawl un y gall ymgyrchoedd sydd wedi'u dylunio'n wael atgyfnerthu normau niweidiol a gwastraffu adnoddau os nad ydynt wedi'u targedu'n effeithiol.

Roedd goroeswyr hefyd o'r farn y byddai'r ymgyrchoedd hyn yn fwy effeithiol pe baent yn cael eu llywio gan eu profiadau. Nodwyd y gall ymgyrchoedd nad ydynt yn cynnwys mewnbwn goroeswyr atgyfnerthu normau niweidiol ynghylch rhywedd yn anfwriadol neu beidio â chyflawni eu hamcanion.

Galwyd am fwy o gyfranogiad gan oroeswyr mewn gweithgareddau atal, yn enwedig ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus a mentrau addysg gymunedol. Roedd goroeswyr o'r farn bod ymgyrchoedd a oedd wedi'u llywio ganddynt yn fwy tebygol o fod yn effeithiol.

Agweddau misogynistaidd a normaleiddio camdriniaeth

Disgrifiodd goroeswyr misogyny cynyddol, yn enwedig ymhlith dynion ifanc, a thynnwyd sylw at y ffordd y mae agweddau camdriniol yn aml yn cael eu hatgyfnerthu mewn lleoliadau cymdeithasol ehangach, mannau ar-lein a rhai sefydliadau sydd dan arweiniad dynion yn bennaf. Roeddent yn teimlo bod rhywiaeth a chamdriniaeth yn cael eu normaleiddio neu eu bychanu'n rhy aml, gan greu amgylchedd lle mae ymddygiadau niweidiol yn cael eu goddef yn hytrach na'u herio. Pwysleisiodd goroeswyr fod rhaid i waith atal fynd i'r afael â'r normau diwylliannol a sefydliadol ehangach hyn os yw newid parhaol am gael ei sicrhau.

Addysg ac ymyrraeth gynnar

Nododd goroeswyr yn gyson fod addysg ac ymyrraeth gynnar yn hanfodol i atal camdriniaeth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gwaith parhaus sy'n briodol i oedran mewn ysgolion a chymunedau er mwyn helpu bechgyn a dynion ifanc i ddeall parch, cydraddoldeb a pherthnasoedd iach, gan hefyd rymuso merched a menywod ifanc i adnabod camdriniaeth a cheisio cymorth. Roeddent yn ystyried ymyrraeth gynnar a chydgyssylltiedig yn hanfodol er mwyn herio agweddau niweidiol cyn iddynt ymwreiddio a newid normau cymdeithasol dros amser.

3.3.4 Safbwyntiau rhanddeiliaid

Heriau atal ar lefel y system

Nododd rhanddeiliaid sawl her ar lefel y system sy'n rhwystro gwaith atal effeithiol. Un o'r prif faterion oedd diffyg eglurder ynghylch cwrpas ac iaith y strategaeth. Mae amcanion a thargedau aneglur, ynghyd â diffyg eglurder ynghylch y cynulleidfaoedd dan sylw a'r sefydliadau sy'n gyfrifol, yn ei gwneud yn anodd cydgysylltu gwaith atal yn effeithiol.

Cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at ddiffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, yn enwedig rhwng gwasanaethau arbenigol VAWDASV a sefydliadau ehangach yn y trydydd sector. Mae'r amwysedd hwn yn cymhlethu'r gwaith o roi ymyriadau ar waith ac yn tanseilio cydlynid y dull atal cyffredinol.

Yn fwy cyffredinol, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am eglurder ynghylch sut y dylid rhoi strategaeth VAWDASV ar waith. Tynnwyd sylw at y ffaith bod targedau ar gyfer lleihau trais a chamdriniaeth yn parhau'n aneglur, ac nad yw'r ffrydiau gwaith presennol wedi'u halinio'n ddigonol ag amcanion y strategaeth. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn pryderu ynghylch y gwaith o roi dull system gyfan cynaliadwy ar waith, o ystyried maint ac amrywiaeth system VAWDASV. Mae hyn yn creu heriau wrth ddatblygu Theori Newid lefel uchel, yn enwedig o ran diffinio cyfrifoldebau a sicrhau atebolrwydd ar bob lefel. Nododd rhanddeiliaid hefyd ddiffyg dealltwriaeth ymhlith arweinwyr a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus o'u dyletsyddau statudol.

Dull cynhwysol o atal

Roedd consensws cryf ymhlith rhanddeiliaid ynghylch yr angen i ehangu cwrpas y strategaeth er mwyn mynd i'r afael ag agweddau a normau cymdeithasol, yn enwedig misogyny a gwahaniaethu ar sail rhywedd. Pwysleisiwyd y dylai addysg ataliol fod yn

gynhwysol ac ymgysylltu â phobl o bob rhywedd ac oedran, gan gynnwys bechgyn, dynion, merched a menywod. Dylai rhaglenni adlewyrchu deinameg gymhleth camdriniaeth a'i heffaith ar wahanol gymunedau, gan gydnabod profiadau ac anghenion amrywiol gwahanol grwpiau.

Technoleg a phatrymau camdriniaeth sy'n esblygu

Mynegodd rhanddeiliaid bryderon nad yw strategaethau atal yn cadw i fyny â natur esblygol camdriniaeth a hwylusir gan dechnoleg. Mae hyn yn cynnwys aflonyddu ar-lein, camdriniaeth seiliedig ar ddelweddau a chamdriniaeth a hwylusir gan ddeallusrwydd artiffisial. Mae natur gynyddol soffistigedig y mathau hyn o gamdriniaeth, megis rheolaeth orfodol a hwylusir yn ddigidol ac anhawster gwahaniaethu rhwng cynnwys a gynhyrchir gan AI a chynnwys a grëwyd gan bobl, yn cyflwyno heriau sylweddol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen brys am strategaethau atal addasol ac arloesol, gan gynnwys addysg gyhoeddus, gwella llythrennedd digidol a hyfforddiant arbenigol i weithwyr rheng flaen.

Nododd y cyfranogwyr fod ymdrechion atal presennol yn llusgo y tu ôl i'r datblygiadau technolegol hyn, gan adael bylchau sylweddol yn strategaeth VAWDASV. Pwysleisiwyd yr angen am ymatebion arloesol, yn enwedig ym meysydd addysg y cyhoedd a llythrennedd digidol, er mwyn sicrhau bod gwaith atal yn parhau'n effeithiol ac yn berthnasol wrth i fathau newydd o gamdriniaeth ddod i'r amlwg.

Bylchau mewn data a thystiolaeth

Mae diffyg data wedi'i ddadgyfuno sy'n benodol i Gymru, ynghyd â systemau gwan ar gyfer rhannu data, yn cyfyngu ar y gallu i nodi tueddiadau'n gynnar ac ymyrryd yn effeithiol. Nododd rhanddeiliaid fod dangosyddion cenedlaethol cyfredol yn rhy gul, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gam-drin domestig, ac nad ydynt yn ddigon eang ar gyfer monitro a gwaith atal cadarn.

Tynnwyd sylw at fylchau a gwendidau yn y systemau casglu a rhannu data VAWDASV fel heriau hollbwysig. Mae diffyg data cenedlaethol wedi'i ddadgyfuno sy'n benodol i Gymru o arolygon cenedlaethol yn rhwystro dealltwriaeth o raddfa a natur VAWDASV. Er bod y dangosyddion cenedlaethol yn cael eu diwygio, maent yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar gam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae angen amlwg am ddangosyddion ehangach er mwyn mesur pob math o gamdriniaeth yn effeithiol.

Nodwyd hefyd fod penderfynu ar ddangosyddion a'u mesur i fonitro cynnydd yn erbyn tair colofn strategaeth VAWDASV yn her benodol. Awgrymwyd dangosyddion perfformiad allweddol megis mwy o ddarpariaeth cymorth arbenigol a gostyngiad mewn cyfraddau troseddu. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw fframwaith monitro ystyried yn ofalus breifatrwydd goroeswyr a chyfyngiadau presennol ar rannu data.

Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith mai cyfyngedig yw'r ymchwil ar effeithiolrwydd rhaglenni cyflawnwyr, a bod setiau data cyflawnwyr yn wan eu datblygiad. Mae diffyg mecanweithiau adrodd unedig yn cyfyngu ar gydweithio rhwng gwasanaethau cymorth arbenigol, tra bod data a ddiogelir yn fasnachol yn cyfyngu ymhellach ar rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau.

Anghydraddoldebau daearyddol

Nododd rhanddeiliaid wahaniaethau sylweddol yn argaeledd gwasanaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Roedd cymunedau gwledig yn wynebu rhwystrau mwy o ran adnabod achosion ac ymyrryd yn gynnar, yn ogystal â mynediad mwy cyfyngedig ac anghyfartal at gymorth a gwasanaethau arbenigol o gymharu â chymunedau trefol.

Mae'r anghydraddoldebau hyn wedi arwain at fylchau yn y ddarpariaeth ledled Cymru, yn enwedig o ran rhaglenni i newid ymddygiad cyflawnwyr, gyda bylchau amlwg yng Ngogledd Cymru.

3.4 Diogelu

3.4.1 Trosolwg

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod diogelu yn cael ei wanhau gan lwybrau aneglur a digyswllt, ymatebion anghyson gan weithwyr rheng flaen, ac atebolrwydd aneglur ar draws asiantaethau. Disgrifiodd goroeswyr brofiadau o orfod datgelu gwybodaeth dro ar ôl tro, peidio â chael eu credu, a bod yn destun arferion anniogel mewn lleoliadau megis iechyd, gofal cymdeithasol a llysoedd teulu. Yn y cyfamser, tynnodd rhanddeiliaid sylw at amwysedd o ran llywodraethu, cyllid tymor byr, trefniadau gwan ar gyfer rhannu data a bylchau mewn darpariaeth arbenigol. Felly, mae cryfhau diogelu yn gofyn am lwybrau cliriach, atebolrwydd amlasiantaethol cryfach, arferion wedi'u llywio gan drawma sy'n dechrau drwy gredu goroeswyr, a buddsoddiad cynaliadwy mewn gallu'r gweithlu ac isadeiledd y system.

3.4.2 Prif negeseuon

- Mae systemau diogelu yn parhau'n dameidiog, gan adael goroeswyr i lywio llwybrau aneglur, ailadrodd eu profiadau, ac wynebu cymorth anghyson ar draws asiantaethau.
- Mae atebolrwydd gwan, amwysedd o ran llywodraethu, a rhannu data cyfyngedig yn lleihau cydgysylltu ac yn ei gwneud yn fwy anodd darparu diogelwch cyson ar draws systemau datganoledig ac annatganoledig.
- Mae gwella diogelu yn dibynnu ar arferion wedi'u llywio gan drawma sy'n dechrau gyda chredu'r unigolyn, ymatebion cryfach gan y sector iechyd a'r llysoedd teulu, cyllid cynaliadwy, a datblygu'r gweithlu gyda chefnogaeth safonau a goruchwyliaeth glir.

3.4.3 Safbwyntiau goroeswyr

Llwybrau darniog a siwrneiau aneglur

Canfu goroeswyr nad oedd llwybr diffiniedig drwy wasanaethau, gyda rolau, cyfrifoldebau a llwybrau atgyfeirio yn parhau'n ansicr. Oherwydd y diffyg eglurder hwn, roedd unigolion yn

aml yn gorfod gweithredu fel eu rheolwyr achos eu hunain, gan lywio system dameidiog wrth wynebu trawma a bregusrwydd.

Yn hytrach na dod ar draws rhwyd ddiogelwch gydlynol, roedd goroeswyr yn wynebu gwasanaethau datgysylltiedig lle nad oedd unrhyw asiantaeth yn cymryd cyfrifoldeb am ganlyniadau na chymorth. Gadawodd y sefyllfa hon hwy heb y cymorth angenrheidiol a chynyddu eu hymdeimlad o risg.

Cydweithredu gwael rhwng asiantaethau

O safbwynt goroeswyr, prin oedd y dystiolaeth o ddull system-gyfan cynaliadwy. Nododd llawer fod rolau asiantaethau yn aneglur a bod cyfathrebu rhwng sefydliadau yn wael. Pwysleisiodd goroeswyr yr angen am ymatebion gwarantedig a phrotocolau clir sy'n nodi prosesau, cyfrifoldebau a'r camau nesaf, yn hytrach na dibynnu ar ddatganiadau uchelgeisiol.

Roeddent yn cydnabod gwerth dull system-gyfan ond yn pwysleisio'r angen am:

- lwybrau gwasanaeth clir a diffiniedig sy'n nodi rolau ac amserlenni
- arweinwyr dynodedig ym mhob asiantaeth, sy'n gyfrifol am weithredu VAWDASV
- fframweithiau goruchwyllo ac atebolrwydd cadarn ar lefel amlasiantaethol i sicrhau darpariaeth ymarferol

Nododd goroeswyr nad yw asiantaethau yn barod yn awtomatig i gydweithio; felly mae rolau penodol ac atebolrwydd clir yn hanfodol ar gyfer gweithio amlasiantaethol effeithiol.

Datgelu dro ar ôl tro a gwaethygu trawma

Roedd y system bresennol yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion a oedd wedi'u trawmateiddio adrodd eu straeon dro ar ôl tro i wahanol asiantaethau, weithiau mewn amgylcheddau anniogel megis o flaen y cyflawnwyr yn ystod ymgynghoriadau iechyd. Roedd y datgelu mynych hwn yn gwaethygu trawma ac yn cynyddu'r risg.

Amrywioldeb mewn ymatebion a diffyg cred

Roedd goroeswyr yn aml yn wynebu anghrediniaeth, bychanu neu ddifaterwch gweithdrefnol. Tynnodd goroeswyr sylw at y ffaith bod cael eu credu yn sylfaenol i ymyrraeth effeithiol. Tanlinellodd goroeswyr bwysigrwydd cael eu credu fel sail i ymyrraeth effeithiol. Roedd llawer yn teimlo bod arfer sy'n ystyriol o drawma yn aml yn arwynebol, wedi'u cyfyngu i weithdai hyfforddi sylfaenol nad ydynt yn newid ymddygiad. Pwysleisiwyd bod arfer gwirioneddol sy'n ystyriol o drawma yn dechrau gyda chred a chefnogaeth, nid amheuaeth na phatholegeiddio. Disgrifiwyd diffyg cred fel gwraidd methiannau systemig, gan danseilio ymddiriedaeth ac atal unigolion rhag ceisio cymorth.

Profodd goroeswyr anghrediniaeth a diffyg tosturi ar draws yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, CAFCASS Cymru, llysoedd teulu, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau tai ac asiantaethau budd-daliadau. Roedd diffyg dealltwriaeth o effaith trawma ar ymddygiad, a oedd weithiau'n arwain at feio goroeswyr am weithredu allan o ofn. Barnwyd bod

hyfforddiant hefyd yn annigonol, a galwodd goroeswyr am ddealltwriaeth ddyfnach, ymarferol o ymatebion i drawma. Roedd anghrediniaeth, bai a bychanu yn achosi trawma pellach i oroeswyr yn ystod cyfnodau bregus.

Cyfleoedd a fethwyd mewn lleoliadau gofal iechyd

Nododd goroeswyr fod lleoliadau gofal iechyd yn aml wedi methu â manteisio ar gyfleoedd i ymyrryd. Rhannodd llawer o oroeswyr brofiadau o weithwyr iechyd proffesiynol yn methu ag adnabod arwyddion camdriniaeth neu ddarparu gofal priodol wedi'i lywio gan drawma. Cyfeiriodd goroeswyr yn aml at dduliau holi anniogel, sylwadau ansensitif, beio dioddefwyr, bychanu profiadau, methu ag ymateb, rhannu gwybodaeth yn wael a chamddiagnosis o symptomau trawma. Ystyriwyd hefyd nad oedd mynediad hwyr at wasanaethau iechyd meddwl, yn aml drwy ymarferwyr gwrywaidd, yn ddiogel nac wedi'i lywio gan drawma.

Disgrifiwyd lleoliadau iechyd fel mannau a oedd â'r potensial i ddarparu diogelwch, ond a oedd yn aml yn methu â gwneud hynny. Argymhellodd goroeswyr y dylid cynnwys hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol o fewn cwricwla prifysgolion ac mewn rhaglenni addysg orfodol parhaus, gyda mewnbwn uniongyrchol gan oroeswyr. Dylai mecanweithiau atebolrwydd sicrhau bod hyfforddiant yn arwain at welliannau ymarferol.

Galluogi camdriniaeth barhaus drwy'r llysoedd teulu a gofal cymdeithasol

Disgrifiwyd systemau llysoedd teulu a gofal cymdeithasol fel rhai sy'n galluogi camdriniaeth barhaus, yn enwedig ar ôl gwahanu. Mewn sawl achos, teimlai goroeswyr fod angen i weithwyr cymdeithasol feithrin dealltwriaeth well o effaith trawma mewn perthnasoedd camdriniol. Profodd goroeswyr sefyllfaoedd lle rhoddir blaenoriaeth i'r egwyddor o "2 riant" dros ddiogelwch menywod a phlant, gan ganiatáu camdriniaeth ar ôl gwahanu oherwydd diffyg dealltwriaeth o gam-drin domestig a rheolaeth orfodol. Dywedodd rhai eu bod wedi profi trefniadau lleoli plant anniogel a chanlyniadau difrifol i'w hiechyd meddwl ar ôl ymgysylltu â gweithwyr cymdeithasol.

Ystyriwyd llysoedd teulu yn arbennig o niweidiol. Cyfeiriodd goroeswyr at ymglyfreitha gormodol, gorchmynion cyswllt gorfodol, penderfyniadau annheg ynghylch gwarchodaeth plant, defnyddio honiadau a ddisgrifir yn aml fel "dieithrio rhiant" i danseilio neu fwrw amheuaeth ar honiadau o gamdriniaeth, diffyg dealltwriaeth o gamdriniaeth a rheolaeth orfodol, a chamddiagnosisau a ddefnyddiwyd yn erbyn goroeswyr. Ystyriwyd bod swyddogion CAFCASS Cymru yn methu ag adnabod tactegau trin a thwylo, ac roedd trefniadau cyswllt dan orfod a'r fframwaith cyfreithiol yn gadael goroeswyr yn fregus ar ôl gwahanu. Galwodd goroeswyr am ddiwygio'r gyfraith gan amlygu effeithiau negyddol hirdymor prosesau'r llysoedd ar iechyd, a oedd yn rhwystro pobl rhag gadael perthnasoedd camdriniol.

Disgrifiwyd methiannau systemig mewn gwaith cymdeithasol a'r llysoedd teulu fel rhai misogynaid, gan arwain at leoliadau anniogel, effeithiau difrifol ar iechyd meddwl, a theimladau o anghrediniaeth neu feio gan sefydliadau a ddylai fod yn darparu amddiffyniad. Argymhellodd goroeswyr y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â Llywodraeth y DU i ddiwygio'r system llysoedd teulu, gwneud hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol yn orfodol ac atebol, a chyflwyno mesurau lliniaru (megis eiriolaeth) tra bo diwygiadau'n cael eu datblygu.

Mae'r profiadau hyn yn lleihau hyder yn y system ac yn gwneud pobl yn llai tebygol o ddatgelu camdriniaeth. Pwysleisiodd goroeswyr fod yn rhaid i systemau diogelu roi blaenoriaeth i gysondeb, llwybrau cydgysylltiedig ac ymatebion wedi'u llywio gan drawma er mwyn sicrhau diogelwch ac ymddiriedaeth.

3.4.4 Safbwyntiau rhanddeiliaid

Nododd rhanddeiliaid amrywiaeth o rwystrau gweithredol a strwythurol sy'n effeithio ar effeithiolrwydd gwasanaethau diogelu. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys amwysedd o ran atebolrwydd a llywodraethu, cyfyngiadau cyllid ac adnoddau, diffyg cydlynid rhwng polisïau, bygythiadau newydd a hwylusir gan dechnoleg, bylchau mewn rhaglenni cyflawnwyr, a heriau sy'n ymwneud â rhannu data a chyfrinachedd.

Amwysedd o ran atebolrwydd a llywodraethu

Mae cymhlethdod y dirwedd amlasiantaethol, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch sut mae blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cyd-fynd, wedi arwain at ddryswch ynghylch cyfrifoldeb ac atebolrwydd. Mae'r dryswch hwn yn rhwystro'r gwaith o ddatblygu prosesau diogelu effeithiol. Mynegodd rhanddeiliaid hefyd ansicrwydd ynghylch cwrddpas llywodraethu datganoledig Cymru, yn enwedig lle mae polisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gorgyffwrdd. Mae'r amwysedd hwn yn arwain at linellau cyfrifoldeb aneglur ac yn cymhlethu cydweithio rhwng asiantaethau. Efallai y bydd yn ofynnol i sefydliadau annatganoledig, megis y rhai sy'n gweithredu ym meysydd plismona, y gwasanaeth prawf a chyfiawnder troseddol, roi blaenoriaeth i bolisïau Llywodraeth y DU, nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd datblygu dull integredig o gyflawni nodau Strategaeth VAWDASV; disgrifiodd goroeswyr y profiad hwn fel system-gyfan nad oedd yn gweithredu mewn ffordd gydlynol.

Cyfyngiadau cyllid ac adnoddau

Mae cyllid annigonol, tymor byr a datgysylltiedig yn tanseilio gallu sefydliadau i gynnal gwasanaethau diogelu a gwasanaethau cymorth arbenigol. Amlygodd y gweithdai rhanddeiliaid yn gyson y diffyg cyllid hirdymor cynaliadwy ar gyfer y gwasanaethau hyn a sefydliadau'r trydydd sector. Mae nifer o ffrydiau ariannu ar wahân a chystadleuaeth am adnoddau cyfyngedig yn rhwystro cydweithio a datblygu trefniadau diogelu cynaliadwy. Nodwyd hefyd brinder adnoddau a bylchau mewn seilwaith, gan gynnwys cymorth arbenigol cyfyngedig i blant a phobl ifanc a diffyg opsiynau llety addas.

Diffyg cydlynid rhwng polisïau

Efallai y bydd yn ofynnol i asiantaethau annatganoledig, gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, roi blaenoriaeth i bolisïau Llywodraeth y DU nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru. Gall y diffyg cydlynid hwn arwain at amrywiadau yn y lefel o amddiffyniad a ddarperir ledled Cymru.

Bygythiadau a hwylusir gan dechnoleg

Mae esblygiad cyflym camdriniaeth ddigidol yn golygu bod angen mesurau diogelu wedi'u diweddarau. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am well sgiliau digidol a hyfforddiant i

weithwyr rheng flaen er mwyn mynd i'r afael â mathau newydd o niwed sy'n deillio o fygythiadau a hwylusir gan dechnoleg.

Bylchau mewn rhaglenni cyflawnwyr

Mae mynediad cyfyngedig ac anghyfartal at raglenni newid ymddygiad cyflawnwyr, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, yn cyfyngu ar y gallu i ddiogelu dioddefwyr drwy fynd i'r afael ag ymddygiad y cyflawnwyr.

Rhannu data a chyfrinachedd

Mae trefniadau gwan ar gyfer rhannu data a diffyg system adrodd unedig yn tanseilio ymatebion diogelu cydgysylltiedig. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod angen i fframweithiau monitro sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am dystiolaeth a'r angen i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch goroeswyr.

3.5 Cefnogi

3.5.1 Trosolwg

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod cymorth yn cael ei wanhau pan nad yw anghenion sylfaenol goroeswyr yn cael eu diwallu a phan fo gwasanaethau'n ddatgysylltiedig, yn anghyson ac yn brin o adnoddau. Disgrifiodd goroeswyr lochesi anniogel neu o ansawdd gwael, arosiadau hir am dai, mynediad anghyfartal at Gynghorwyr Annibynnol Trais Domestig (IDVAs), cymorth cyfreithiol ac iechyd meddwl cyfyngedig, a chyfranogiad symbolaidd mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Atgyfnerthodd rhanddeiliaid y pryderon hyn drwy dynnu sylw at fylchau mewn cydlyn, dylunio cynhwysol, darpariaeth arbenigol a sefydlogrwydd y gweithlu. Felly, mae cryfhau'r cymorth sydd ar gael yn gofyn am gyllid cynaliadwy, isadeiledd gwell, llwybrau mwy cydgysylltiedig, cydgynhyrchu ystyrlon gyda goroeswyr, a chymorth adfer tymor hir ochr yn ochr ag ymatebion mewn argyfwng.

3.5.2 Prif negeseuon

- Ni all cymorth weithredu'n effeithiol pan nad yw anghenion sylfaenol megis tai diogel, sicrwydd bwyd, gofal plant a sefydlogrwydd economaidd yn cael eu diwallu'n gyson.
- Mae gwasanaethau'n parhau'n anghyfartal, yn dameidiog ac yn brin o adnoddau, gyda gwahaniaethau daearyddol, cydlyn gwael a phwysau ar y gweithlu yn cyfyngu ar fynediad ac ansawdd.
- Mae cymorth adfer tymor hir, cydgynhyrchu ystyrlon a darpariaeth arbenigol sefydlog yn fylchau mawr y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ochr yn ochr â gwasanaethau argyfwng.

3.5.3 Safbwyntiau goroeswyr

Nododd goroeswyr mai'r elfen gymorth o Strategaeth VAWDASV oedd yr un yr oedd angen rhoi sylw iddi fwyaf ar frys. Tynnwyd sylw at nifer o feysydd allweddol lle nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion:

Methiant i ddiwallu anghenion sylfaenol

Rhybuddiodd goroeswyr dro ar ôl tro fod uchelgeisiau i ddileu VAWDASV yn cael eu tanseilio pan nad yw anghenion sylfaenol megis llety diogel a sicrwydd bwyd yn cael eu diwallu. Disgrifiwyd amodau gwael mewn llochesi, ffioedd anfforddiadwy ac arosiadau hir am dai fel rhwystrau mawr i adferiad a diogelwch.

Pwysleisiwyd bod sicrwydd economaidd yn hanfodol, nid yn unig mewn cyfnodau o argyfwng ond drwy gydol y broses adfer. Nododd goroeswyr y gall diffyg sefydlogrwydd ariannol orfodi pobl i wneud dewisiadau amhosibl, gan gynnwys dychwelyd at berthnasoedd anniogel. Disgrifiwyd profiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) fel rhai cywilyddus a thrawmateiddiol. Rhaid i ddull cynaliadwy sy'n ystyried y system gyfan gynnwys pob asiantaeth sy'n ymwneud â materion economaidd, gyda gwaith eirioli dros sicrwydd economaidd a thai diogel yn cael ei ystyried yn hanfodol.

Mae diwallu anghenion sylfaenol hefyd yn cynnwys cefnogi rhieni nad ydynt yn cam-drin i ddiwallu anghenion eu plant, gan gynnwys pobl ifanc yn eu harddegau a phlant niwrowahanol. Awgrymodd goroeswyr y dylai ysgolion chwarae rôl fwy gweithredol, gyda pholisïau cadarn i gefnogi plant sy'n oroeswyr ac i atal camdriniaeth ar ôl gwahanu o fewn lleoliadau ysgol.

Anghydraddoldebau daearyddol sy'n effeithio ar fynediad at wasanaethau

Mae gwasanaethau arbenigol mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd ar y ffin yng Nghymru yn aml yn anghyson ac yn anodd eu cyrraedd, gydag amseroedd aros hirach o gymharu ag ardaloedd trefol a gwasanaethau cyfatebol yn Lloegr. Mae meini prawf cymhwysedd llym yn eithrio llawer o oroeswyr, megis y rhai sy'n adrodd am gamdriniaeth hanesyddol, yn profi aflonyddu, neu wedi symud ardal ond yn dal i wynebu camdriniaeth ar ôl gwahanu.

Ansawdd gwasanaethau gwael neu anghyson

Roedd goroeswyr yn glir na allai unrhyw strategaeth lwyddo heb adnoddau digonol. Mae angen buddsoddiad parhaus er mwyn sicrhau gwelliannau gweladwy mewn llochesi, tai cam nesaf, Cyngorwyr Annibynnol Trais Domestig (IDVAs), a chymorth tymor hir gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl.

Gwasanaethau dan bwysau yn arwain at oedi ac anghenion heb eu diwallu

Mae arosiadau hir am dai sefydlog ar ôl gadael lloches yn golygu bod menywod a phlant yn aros mewn llochesi am gyfnodau hirach, weithiau mewn amodau anniogel. Gall hyn orfodi goroeswyr i ddychwelyd at gyflawnwyr ac atal teuluoedd newydd rhag cael mynediad at leoedd mewn llochesi.

Mae'r mater hwn yn arbennig o ddifrifol i'r rhai ag anghenion cymhleth, gan fod nifer y lleoedd addas mewn llochesi yn gyfyngedig. Galwodd goroeswyr am safonau clir ac adnoddau digonol i sicrhau ansawdd cyson mewn llety lloches.

Ystyrir IDVAs yn hanfodol, ond mae eu hargaeledd yn anghyson. Credodd rhai goroeswyr fod IDVAs wedi achub eu bywydau, tra bod eraill wedi profi cymorth gwael, a briodolwyd i danariannu cronig yn y trydydd sector. Nododd goroeswyr fod diffyg adnoddau yn arwain at drosiant staff a cholli arbenigedd arbenigol, gan fygwth cynaliadwyedd a chynyddu'r risg o gwmpwys gwasanaethau.

Roedd prinder cyllid ac oedi biwrocraidaidd hefyd yn atal mynediad at gymorth cyfreithiol, gan ganiatáu i gyflawnwyr gadw rheolaeth a rhwystro llwybrau goroeswyr drwy'r system.

Diffyg cymorth ar gyfer adferiad tymor hir y tu hwnt i wasanaethau argyfwng

Darperir y rhan fwyaf o gymorth yn ystod argyfwng neu'n syth ar ôl camdriniaeth. Pwysleisiodd goroeswyr fod angen gwasanaethau adfer tymor hir, ond bod y gwasanaethau hyn yn brin, heb ddigon o gyllid, ac yn aml â rhestrau aros hir, yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl. Heb ddarpariaeth o'r fath, mae goroeswyr mewn perygl o brofi problemau iechyd hirdymor a chamdriniaeth bellach. Mae rhoi terfyn ar VAWDASV yn gofyn am ymatebion tymor hir, nid ymyriadau mewn argyfwng yn unig.

Gofal iechyd fel pwynt mynediad at gymorth

Nododd goroeswyr fod gofal iechyd yn elfen arbennig o bwysig o ymateb system gyfan. Disgrifiodd goroeswyr eu bod yn dod i gysylltiad yn aml â gwasanaethau iechyd yn ystod profiadau o gam-drin ac ar ôl hynny, ond tynnwyd sylw at gyfleoedd a gollwyd i adnabod cam-drin, hwyluso datgeliad ac atgyfeirio'n ddiogel. Roedd hyn yn golygu bod gofal iechyd yn bwynt mynediad pwysig at gymorth, yn enwedig i oroeswyr nad ydynt o bosibl mewn cysylltiad â gwasanaethau VAWDASV arbenigol na gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Disgrifiodd goroeswyr hefyd amrywiaeth yn nealltwriaeth gweithwyr iechyd proffesiynol o drawma, ei effeithiau hirdymor ar iechyd, a chyfathrebu a gofal sy'n seiliedig ar drawma. Felly, pwysleisiodd goroeswyr yr angen i weithwyr iechyd proffesiynol gydnabod effeithiau ehangach VAWDASV; cyfathrebu ac ymateb mewn ffyrdd sy'n lleihau'r risg o ailachosi trawma; ymateb yn ddiogel ac yn briodol i ddatgeliad; a bod yn gysylltiedig â llwybrau atgyfeirio a chymorth clir.

Cydgynhyrchu symbolaidd a dylanwad cyfyngedig ar wneud penderfyniadau

Er bod goroeswyr yn croesawu cyfleoedd i gyfrannu, disgrifiodd llawer y paneli a'r ymgynghoriadau fel rhai symbolaidd. Roeddent yn aml yn teimlo bod yr amser a neilltuwyd ar gyfer cyfrannu yn gyfyngedig, mai anaml yr oedd eu cyfraniadau'n dylanwadu ar benderfyniadau, a bod y fformatau weithiau'n anhygyrch. Gall cyfranogiad symbolaidd ail-drawmateiddio goroeswyr a thanseilio eu hymddiriedaeth yn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Galwodd goroeswyr am gydgynhyrchu gwirioneddol sydd wedi'i ymgorffori ym mhob lefel o strategaeth a darpariaeth VAWDASV, gan gynnwys:

- Paneli goroeswyr sy'n gysylltiedig â phob sefydliad.
- Cyfranogiad â thâl sy'n cydnabod gwerth profiad byw.
- Hyfforddiant dan arweiniad goroeswyr i weithwyr proffesiynol, gan gynnwys mewnwelediadau o brofiad byw.

Pwysleisiodd goroeswyr yn gyson nad oeddent yn gallu ymgysylltu ag ymyriadau na chyflawni adferiad heb gymorth sefydlog. Ystyriwyd bod diwallu anghenion sylfaenol a darparu cymorth cyson o ansawdd uchel yn sail i bob canlyniad arall yn y system.

3.5.4 Safbwyntiau rhanddeiliaid

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at rwystrau strwythurol sylweddol o fewn systemau cymorth sy'n atal mynediad goroeswyr at gymorth effeithiol. Mae'r cyfyngiadau hyn yn gysylltiedig â materion hygrychedd, cydlynu a chynhwysiant, gan effeithio ar ansawdd a pharhad cymorth ledled Cymru.

Rhwystrau o ran hygrychedd a chydlynu

Nododd rhanddeiliaid fod goroeswyr yn wynebu nifer o rwystrau wrth geisio cael cymorth, gan gynnwys rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol, stigma, a'r gofid o orfod ailadrodd profiadau trawmatig wrth ymgysylltu â gwahanol asiantaethau. Mae'r rhwystrau hyn yn cael eu gwaethygu gan ddiffyg cydgysylltu rhwng gwasanaethau, gan arwain at gymorth datgysylltiedig nad yw'n diwallu anghenion amrywiol goroeswyr. Galwodd rhanddeiliaid am system gymorth fwy cynhwysol, hygrych a chydgysylltiedig sy'n gallu ymateb i'r ystod eang o anghenion a geir ledled Cymru.

System gymorth dameidiog

Mae diffyg protocolau cadarn ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydlynu rhwng asiantaethau yn creu profiad datgysylltiedig i oroeswyr. Mae unigolion yn cael eu gorfodi i lywio rhwng nifer o asiantaethau ac ailadrodd eu profiadau trawmatig yn gyson, a all ail-drawmateiddio pobl ac atal ymgysylltiad â gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r darnio hwn yn deillio o ddiffyg fframweithiau rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, gan orfodi goroeswyr i ail-fyw eu profiadau trawmatig wrth geisio defnyddio gwasanaethau arbenigol.

Diffyg adnoddau a chyfyngiadau seilwaith

Nododd rhanddeiliaid ddiffyg gwasanaethau cymorth arbenigol a llety addas, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae diffyg amlwg hefyd o opsiynau tai arbenigol cychwynnol a hirdymor, sy'n cyfyngu ymhellach ar allu goroeswyr i gael mynediad at gymorth sefydlog a phriodol.

Materion o ran cadw'r gweithlu

Mae trosiant staff uchel mewn gwasanaethau cymorth arbenigol yn cyfrannu at ansefydlogrwydd, colli arbenigedd a diffyg cysondeb yn ansawdd y cymorth a ddarperir i oroeswyr. Nodwyd bod cadw staff yn her sylweddol oherwydd natur heriol y gwaith a phrinder adnoddau. Mae'r ffactorau hyn yn arwain at fylchau mewn sgiliau a gwybodaeth ymhlith y gweithlu, gan effeithio ar ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael i oroeswyr ar draws system VAWDASV.

Iaith gynhwysol a dylunio gwasanaethau

Roedd rhanddeiliaid o blaid defnyddio iaith fwy cynhwysol a dylunio gwasanaethau mewn ffordd fwy cynhwysol, er mwyn sicrhau bod pob dioddefwr yn gallu cael cymorth priodol o ansawdd uchel. Nodwyd bod geifa'r strategaeth bresennol yn peri problemau, ac awgrymwyd y dylid ehangu ei chwmpas i gynnwys pob grŵp agored i niwed yr effeithir arno gan drais a cham-drin domestig, yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar fenywod a merched. Er eu bod yn cydnabod bod trais a cham-drin yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd defnyddio iaith gynhwysol a

darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pob grŵp o ddioddefwyr, gan gynnwys cymunedau LGBTQIA+ a phlant.

3.6 Prif wahaniaethau a meysydd cydweddu

3.6.1 Meysydd cydweddu

Roedd goroeswyr a rhanddeiliaid yn cytuno'n fras ar nifer o themâu craidd sy'n ymddangos ar draws pileri Atal, Diogelu a Chefnogi:

- Yr angen am gydlynw mwy effeithiol rhwng gwasanaethau, fel nad oes rhaid i oroeswyr lywio llwybrau datgysylltiedig, ailadrodd eu profiadau na cheisio pontio bylchau rhwng asiantaethau.
- Pwysigrwydd cyllid cynaliadwy, gan gynnwys buddsoddiad sefydlog mewn gwasanaethau arbenigol, capasiti'r gweithlu, tai, eiriolaeth a chymorth adfer tymor hir.
- Anghydraddoldebau daearyddol, gyda gwasanaethau mwy anghyson a llai o opsiynau ar gael mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd ar y ffin nag mewn ardaloedd trefol.
- Gwerth dull system-gyfan sy'n cyfuno atal, diogelu a chefnogi, gan gryfhau atebolrwydd, rhannu gwybodaeth ac arferion sy'n canolbwyntio ar oroeswyr.

3.6.2 Prif wahaniaethau

Yn ystod yr ymchwil, daeth rhai gwahaniaethau amlwg i'r amlwg rhwng y materion a godwyd gan oroeswyr a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae'r rhain yn adlewyrchu safbwyntiau gwahanol yn hytrach na blaenoriaethau sy'n gwrthdaro. Roedd goroeswyr yn canolbwyntio ar brofiadau byw a'r hyn sydd ei angen ar gyfer diogelwch ac adferiad, tra bod rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar y strwythurau, yr adnoddau a'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen i wella'r system. Gyda'i gilydd, maent yn dangos bod yn rhaid i ddiwygio fod wedi'i gynllunio'n dda ac wedi'i seilio ar brofiad byw.

Pwysleisiodd goroeswyr:

- Brofiadau byw o niwed, anghrediniaeth ac ail-drawmateiddio ar draws gwasanaethau.
- Pwysigrwydd cred, empathi ac ymatebion wedi'u llywio gan drawma o'r datgeliad cyntaf ymlaen.
- Anghenion ymarferol uniongyrchol megis tai, diogelwch, gofal plant a sicrwydd ariannol.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid:

- Dyluniad y system, y ffordd y caiff ei gweithredu, a'r rhwystrau gweithredol sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau.
- Yr angen am strwythurau, rolau, cyfrifoldebau a mecanweithiau atebolrwydd cliriach.
- Dyrannu adnoddau, comisiynu a chynaliadwyedd y gweithlu ar draws gwasanaethau.

- Cymhlethdod llywodraethu, diffyg aliniad polisi a chyfyngiadau ar rannu data ar draws systemau datganoledig ac annatganoledig.

3.7 Goblygiadau ar gyfer y Theori Newid

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod newid effeithiol yn gofyn am:

- Cyfuno diwygio systemau â gwelliannau wedi'u llywio gan brofiadau byw, gan adlewyrchu safbwyntiau rhanddeiliaid a goroeswyr.
- Mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol ac arferion rheng flaen fel ei gilydd.
- Symud o system ddatgysylltiedig i lwybrau clir a chydgysylltiedig.
- Ymgorffori atebolrwydd, cyllid cynaliadwy a llais goroeswyr ym mhob rhan o'r system.
- Blaenoriaethu anghenion sylfaenol fel sail i ymgysylltu ac adfer.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer y Theori Newid a gyflwynir yn Adran 4. Maent yn llywio ei rhagdybiaethau, ei mecanweithiau newid a'r llwybrau ar draws atal, diogelu a chefnogi.

4. Theori Newid VAWDASV

4.1 Diben y Theori Newid

Mae'r Theori Newid (ToC) yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer deall sut y disgwylir i Strategaeth VAWDASV a'r Glasbrint Llywodraeth Cymru gyflawni newid. Mae'n cysylltu amcanion polisi lefel uchel â gweithredoedd ymarferol, allbynnau, deilliannau ac effeithiau hirdymor.

Datblygwyd y ToC drwy ymgysylltu â goroeswyr a rhanddeiliaid (gweler Adran 3), ac mae'n adlewyrchu profiadau byw goroeswyr a safbwyntiau systemig rhanddeiliaid allweddol. Ei fwriad yw bod yn offeryn strategol sy'n:

- egluro sut y disgwylir i newid ddigwydd
- cefnogi cydlynu amlasiantaethol
- nodi rhagdybiaethau, risgiau a dibyniaethau
- galluogi monitro, gwerthuso a dysgu

Dylid darllen y ToC ochr yn ochr â'r canfyddiadau yn Adran 3, sy'n darparu'r sail dystiolaeth sy'n sail i'w dyluniad.

4.2 Strwythur y Theori Newid

Mae'r ToC wedi'i threfnu o amgylch 3 colofn strategol Strategaeth VAWDASV:

- Atal – mynd i'r afael ag achosion sylfaenol a lleihau nifer yr achosion.
- Diogelu – gwella diogelwch, ymatebion ac atebolrwydd.
- Cefnogi – sicrhau bod anghenion goroeswyr yn cael eu diwallu drwy wasanaethau hygyrch o ansawdd uchel.

Ar draws pob colofn, mae'r ToC yn dilyn cadwyn ganlyniadau gyson:

Mewnbynnau → Prosesau → Allbynnau → Deilliannau → Effeithiau hirdymor

Mae'r llwybrau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd; mae gweithgarwch mewn un golofn yn aml yn cyfrannu at ddeilliannau mewn colofnau eraill, gan adlewyrchu cymhlethdod system VAWDASV. Mae'r ToC yn gweithredu ar lefel y system gyfan, gan gydnabod rolau sectorau datganoledig ac annatganoledig, gan gynnwys iechyd, addysg, tai, gofal cymdeithasol, plismona a chyfiawnder.

4.3 Sylfeini'r Theori Newid

4.3.1 Rhagdybiaethau craidd

Mae'r ToC yn seiliedig ar nifer fach o ragdybiaethau allweddol a nodwyd drwy ymgysylltu â goroeswyr. Nid amodau cefndir dewisol mohonynt; maent yn sylfeini y mae angen eu sefydlu er mwyn i'r llwybrau newid ehangach weithredu fel y bwriadwyd.

- Caiff anghenion sylfaenol goroeswyr (gan gynnwys tai, diogelwch, gofal plant a sefydlogrwydd ariannol) eu diwallu, fel nad yw ymgysylltu â chymorth yn dibynnu ar unigolion yn rheoli argyfwng, ansicrwydd neu risg uniongyrchol ar eu pennau eu hunain.
- Mae dull “dechrau drwy gredu” wedi'i ymgorffori ar draws pob gwasanaeth, fel bod datgeliadau cyntaf yn cael eu derbyn gyda chred, gweithredu priodol ac ymatebion wedi'u llywio gan drawma, yn hytrach nag amheuaeth neu feio.
- Mae goroeswyr yn cydgynhyrchu'n ystyrlon ac yn cael eu talu'n briodol am eu cyfraniad, gan lywio'r gwaith o ddylunio, darparu, profi ac adolygu yn hytrach na chael eu cynnwys drwy ymgynghoriad symbolaidd yn unig.
- Mae cyllid cynaliadwy yn cefnogi gwasanaethau rheng flaen ac isadeiledd, gan gynnwys eiriolaeth, llochesi, cymorth tai a hyfforddiant, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddibynadwy yn hytrach na thymor byr neu fregus.
- Mae mecanweithiau cydlynau amlasiantaethol effeithiol ar waith, gyda rolau clir, cyfrifoldeb ar y cyd a llwybrau cymorth sy'n lleihau'r baich ar oroeswyr i lywio systemau ar eu pennau eu hunain.

Mae'r rhagdybiaethau hyn yn cynrychioli amodau angenrheidiol i lwybrau'r ToC weithredu. Pan nad ydynt yn bodoli, mae goroeswyr yn fwy tebygol o wynebu ymatebion dameidiog, trawma dro ar ôl tro a llai o fynediad at gymorth ystyrlon.

4.3.2 Heriau trawsbynciol

Amlygodd y canfyddiadau yn Adran 3 nifer o heriau systemig sy'n effeithio ar bob un o'r tair piler. Disgrifiodd goroeswyr y rhain fel rhwystrau cydgysylltiedig sy'n gallu dwysáu niwed ar ôl datgelu neu wahanu, yn enwedig lle mae systemau'n anodd eu llywio, yn anghyfartal eu hadnoddau neu'n cael eu profi fel rhai anghrediniol.

- Gwasanaethau datgysylltiedig a chydlynau gwael, sy'n aml yn golygu bod goroeswyr yn gorfod ailadrodd eu profiadau, rheoli eu hatgyfeiriadau eu hunain a wynebu cymorth anghyson rhwng asiantaethau a lleoliadau.
- Gweithredu arferion wedi'u llywio gan drawma yn anghyson, gyda gwasanaethau weithiau'n parhau'n weithdrefnol neu'n arwynebol, neu'n ymateb gydag anghrediniaeth yn hytrach na dealltwriaeth ddyfnach o drawma.
- Atebolrwydd cyfyngedig a chyfrifoldebau aneglur, sy'n gallu arwain at drosglwyddo bai, diffyg cymorth dilynol ac ychydig o hyder ymhlith goroeswyr y bydd methiannau i weithredu yn cael sylw.
- Diffyg adnoddau a phwysau ar y gweithlu, gan gynnwys cyllid ansicr ar gyfer eiriolaeth, llochesi, tai a hyfforddiant, sy'n tanseilio cysondeb, ansawdd a chapasiti ar draws y system.

- Anghydraddoldebau daearyddol ac o ran mynediad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd ar y ffin, lle gall goroeswyr wynebu llai o wasanaethau, gorfod teithio ymhellach a chael llai o fynediad at gymorth cynhwysfawr.
- Agweddau diwylliannol niweidiol, gan gynnwys misogyny a beio dioddefwyr, sy'n gallu tanseilio hygyrdd goroeswyr, eu digalonni rhag ceisio cymorth ac atgyfnerthu ymatebion annigol neu ail-drawmateiddiol.

Mae'r heriau hyn wedi'u hymgorffori drwy gydol y ToC ac yn llywio ei ddyluniad, gan dynnu sylw at feysydd lle mae newid yn dibynnu nid yn unig ar weithgarwch newydd ond hefyd ar sylfeini cryfach, atebolrwydd cliriach ac arferion mwy cyson sy'n canolbwyntio ar oroeswyr.

4.3.3 Mekanweithiau newid

Mae'r ToC yn nodi'r prif fecanweithiau y disgwylir i newid ddigwydd drwyddynt. Mae'r mekanweithiau hyn yn disgrifio sut y byddai angen i'r system weithredu'n wahanol er mwyn i oroeswyr brofi ymatebion mwy diogel, mwy cydgysylltiedig a mwy effeithiol.

- Dylunio a chydgynhyrchu dan arweiniad goroeswyr, fel bod polisi, hyfforddiant a gwasanaethau'n cael eu llywio gan brofiadau byw ac yn cael eu profi yn erbyn yr hyn y mae goroeswyr yn ei ddweud sy'n gwella diogelwch a chymorth.
- Arferion wedi'u llywio gan drawma sy'n seiliedig ar y dull "dechrau drwy gredu", gan sicrhau bod empathi, credu goroeswyr a dealltwriaeth o drawma yn sail i bob cyswllt o'r datgeliad cyntaf ymlaen.
- Gweithio amlasiantaethol integredig, gyda gwasanaethau'n cydlynu cymorth o amgylch goroeswyr yn hytrach na disgwyl iddynt bontio bylchau rhwng iechyd, tai, gofal cymdeithasol, cyfiawnder a gwasanaethau cymorth arbenigol, gan gynnwys integreiddio effeithiol rhwng gwasanaethau VAWDASV arbenigol, iechyd, gofal cymdeithasol, tai, yr heddlu a gwasanaethau perthnasol eraill.
- Strwythurau atebolrwydd a llywodraethu clir, fel bod rolau a chyfrifoldebau'n cael eu deall, bod methiannau i weithredu yn cael sylw, a bod dysgu'n llywio gwelliannau ar draws y system.
- Buddsoddiad cynaliadwy a sefydlogrwydd ar draws y system, sy'n galluogi gwasanaethau rheng flaen, cyfranogiad goroeswyr, datblygu'r gweithlu a chymorth tymor hir i gael eu cynnal.

Mae'r mekanweithiau hyn yn gweithredu ar bob lefel ac yn hanfodol i gyflawni deilliannau, gan eu bod yn trosi blaenoriaethau goroeswyr yn amodau ymarferol, ymddygiadau a newidiadau systemig sydd eu hangen er mwyn i'r ToC arwain at newid ystyrlon.

4.4 Colofnau'r Theori Newid

4.4.1 Atal

Mae'r golofn Atal yn canolbwyntio ar leihau nifer yr achosion o gamdriniaeth drwy fynd i'r afael â'i hachosion sylfaenol, gan gynnwys yr agweddau, y normau a'r bylchau mewn dealltwriaeth sy'n caniatáu i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol barhau.

Prif broblemau

- Dealltwriaeth gyfyngedig y cyhoedd o sbectrwm llawn camdriniaeth, gan gynnwys dryswch ynghylch iaith a diffiniadau sy'n gallu culhau'r gydnabyddiaeth o ymddygiadau niweidiol.
- Normau ac agweddau cymdeithasol niweidiol, gan gynnwys misogyny a gwahaniaethu croestoriadol, sy'n gallu bychanu camdriniaeth a normaleiddio ymddygiad niweidiol.
- Bylchau mewn addysg ac ymwybyddiaeth atal, gan gynnwys dealltwriaeth gyfyngedig o berthnasoedd iach a chyrhaeddiad anghyfartal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ar draws cymunedau.
- Mathau newydd o gamdriniaeth, gan gynnwys camdriniaeth a hwylusir gan dechnoleg a deallusrwydd artiffisial, sy'n gofyn i ddulliau atal gadw i fyny â risgiau sy'n newid.

Mewnbynnau

- Buddsoddi mewn rhaglenni atal ac addysg, gan gynnwys gweithgarwch lleol a rhanbarthol wedi'i gynllunio ar gyfer ymyrraeth gynnar a newid diwylliannol tymor hir.
- Capasiti a hyfforddiant y gweithlu ar gyfer sefydliadau cymunedol a phartneriaid eraill i gefnogi darpariaeth, cydweithio a chynaliadwyedd.
- Cyfathrebu ac adnoddau wedi'u llywio gan oroeswyr, gan sicrhau bod profiad byw yn llywio negeseuon, dyluniad a hygyrchedd.
- Ymchwil, gwerthuso a systemau data i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth a monitro beth sy'n gweithio mewn atal ac ymyrraeth gynnar.

Prosesau

- Datblygu iaith a diffiniadau cyffredin, gan gynnwys terminoleg y cytunwyd arni sy'n adlewyrchu'n well yr ystod llawn o ymddygiadau camdriniol.
- Cyflwyno rhaglenni atal ac ymyrraeth gynnar sy'n briodol i oedran, wedi'u llywio gan oroeswyr ac wedi'u targedu at y rhai sydd fwyaf mewn perygl.
- Cydweithio a gwerthuso amlasiantaethol er mwyn cefnogi cynllunio strategol, darpariaeth weithredol a dysgu parhaus.
- Ymgysylltu cymunedol ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n hygyrch, yn ymatebol i ddiwylliant ac wedi'u targedu'n well at grwpiau amrywiol.

Allbynnau

- Terminoleg a chanllawiau y cytunwyd arnynt i gefnogi dealltwriaeth gyffredin ac ymatebion amlasiantaethol mwy cyson.
- Mwy o raglenni atal ac ymyrraeth gynnar, wedi'u llywio gan brofiadau byw goroeswyr a thystiolaeth ymchwil.
- Cyfathrebu hygyrch wedi'i dargedu sy'n ymateb i anghenion amrywiol, gan gynnwys anghenion ieithyddol a dysgu.
- Tystiolaeth am ymyriadau effeithiol a gynhyrchir drwy ymchwil, gwerthuso a dysgu gan randdeiliaid.

Deilliannau

- Gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o gamdriniaeth, gan gynnwys cydnabyddiaeth gliriach o reolaeth drwy orfodaeth a mathau eraill o niwed sy'n llai gweladwy.
- Mwy o ymgysylltu â mentrau atal, gan gynnwys cyrhaeddiad ehangach ymhlith cymunedau a grwpiau nad yw gwasanaethau'n eu cyrraedd yn ddigonol.
- Sylfaen dystiolaeth gryfach ar ymyrraeth gynnar, gan gefnogi'r gwaith o fireinio rhaglenni a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch buddsoddi.
- Mwy o ystyriaeth i groestoriadedd, gan sicrhau bod gwaith atal yn adlewyrchu anghenion, profiadau a rhwystrau amrywiol yn well.

Effeithiau hirdymor

- Lleihad ym mhob math o gamdriniaeth ar draws gwahanol gymunedau a grwpiau demograffig.
- Newid diwylliannol sy'n gwrthod camdriniaeth, misogyny a normau sy'n bychanu neu'n esgusodi ymddygiad niweidiol.
- Mwy o gydraddoldeb rhwng y rhywiau, wedi'i adlewyrchu mewn agweddau, ymddygiad a disgwyliadau cymdeithasol ehangach.
- Mwy o gapasiti mewn cymunedau i atal niwed ac ymateb yn gynharach i risg.

4.4.2 Diogelu

Mae'r golofn Diogelu yn canolbwyntio ar sicrhau bod goroeswyr yn ddiogel a bod systemau'n ymateb yn effeithiol, yn gyson ac gydag atebolrwydd clir ar draws asiantaethau.

Prif broblemau

- Systemau datgysylltiedig a chyfrifoldebau aneglur, gan gynnwys bylchau rhwng swyddogaethau datganoledig ac annatganoledig sy'n gallu gwanhau atebolrwydd.

- Ymatebion anghyson ar draws asiantaethau, a all arwain at fethiannau systemig ac ail-drawmateiddio goroeswyr.
- Bylchau yng nghapasiti'r gweithlu, cadw staff a hyfforddiant, sy'n effeithio ar ansawdd a chysondeb y cymorth.
- Bylchau mewn data a thystiolaeth, gan gynnwys tanadrodd a chamddosbarthu, sy'n gwanhau monitro, craffu ac atebolrwydd.
- Rhwystrau i gael cymorth, gan gynnwys lleoliad daearyddol, anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol, sy'n arwain at wahaniaethau yn y lefel o amddiffyniad a ddarperir ledled Cymru.

Mewnbynnau

- Strwythurau cydlynu amlasiantaethol sy'n cysylltu cyfiawnder, iechyd, tai, addysg a gofal cymdeithasol.
- Systemau data a phrotocolau rhannu gwybodaeth i gefnogi monitro, craffu a rheoli achosion ar y cyd.
- Rolau dynodedig ac arweinyddiaeth o fewn asiantaethau i greu cyfrifoldeb clir dros weithredu a goruchwyllo.
- Hyfforddiant, hwyluso a mecanweithiau atebolrwydd i gryfhau cydlynu rhyngasiantaethol ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar oroeswyr.

Prosesau

- Mapio rolau a chyfrifoldebau ar draws y system, gan gynnwys cyhoeddi disgwyliadau gwasanaeth sy'n egluro dyletswyddau asiantaethau.
- Darparu hyfforddiant dan arweiniad goroeswyr i hyrwyddo ymatebion wedi'u llywio gan drawma a'r dull "dechrau drwy gredu" ar draws gwasanaethau allweddol.
- Cryfhau atebolrwydd drwy archwilio, craffu a mecanweithiau goruchwyllo sy'n nodi ac yn mynd i'r afael â methiannau systemig.
- Sefydlu ymatebion amlasiantaethol cydgysylltiedig, wedi'u seilio ar wneud penderfyniadau ar y cyd, canllawiau clir a chydweithio gweithredol.

Allbynnau

- Llwybrau gwasanaeth, mapiau rhanddeiliaid a disgwyliadau cyhoeddiedig sy'n egluro pwy sy'n gyfrifol am beth.
- Cytundebau a phrotocolau rhannu data sydd wedi'u gweithredu ac yn weithredol ar draws asiantaethau.
- Rhaglenni hyfforddi a chanllawiau, gan gynnwys cynnwys wedi'i lywio gan drawma a luniwyd o brofiadau goroeswyr.

- Cytundebau, canllawiau a llwybrau amlasiantaethol ffurfiol sy'n cefnogi ymatebion cydgysylltiedig, gan gynnwys mewn perthynas â stelcian a lleoliadau gofal iechyd.

Deilliannau

- Rolau a chyfrifoldebau cliriach ar draws asiantaethau a sectorau.
- Ymatebion mwy cyson a chydgyssylltiedig, gan leihau datgysylltiad rhwng gwasanaethau a gwella profiadau goroeswyr.
- Gwell mynediad at wasanaethau, p'un a yw goroeswyr yn rhoi gwybod i'r awdurdodau ai peidio.
- Mwy o hyder ymhlith staff, gwell cymorth iddynt a gwell cyfraddau cadw staff ar draws gwasanaethau perthnasol.

Effeithiau hirdymor

- Mwy o hyder ymhlith goroeswyr i ddatgelu ac adrodd, ynghyd â chanfyddiadau cryfach o ddiogelwch.
- Gwell diogelwch a llai o ail-drawmateiddio drwy ymatebion mwy effeithiol a phriodol.
- Mwy o atebolrwydd ar draws systemau, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth, craffu a threfniadau llywodraethu cliriach.
- Mynediad tecach at amddiffyniad ledled Cymru, gyda llai o rwystrau daearyddol ac amgylchiadol.

4.4.3 Cefnogi

Mae'r piler Cefnogi yn canolbwyntio ar sicrhau bod goroeswyr yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt, gan gynnwys cymorth ymarferol, wedi'i lywio gan drawma ac wedi'i arwain gan oroeswyr sy'n ymateb i anghenion uniongyrchol a thymor hwy.

Prif broblemau

- Anghenion sylfaenol heb eu diwallu, gan gynnwys tai, bwyd, gofal plant a sefydlogrwydd ariannol, sy'n effeithio ar ddiogelwch goroeswyr a'u gallu i ymgysylltu â chymorth.
- Darpariaeth gwasanaethau anghyson ledled Cymru, gyda gwahaniaethau daearyddol sylweddol yn argaeledd cymorth.
- Modelau cyllido tymor byr, cystadleuol ac ansefydlog sy'n tanseilio cynaliadwyedd gwasanaethau a chynllunio hirdymor.
- Cydgynhyrchu symbolaidd nad yw'n ymgorffori profiadau byw goroeswyr yn ystyrllon wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

- Pwysau ar y gweithlu mewn gwasanaethau arbenigol sy'n effeithio ar argaeledd, ansawdd a chysondeb y cymorth.

Mewnbynnau

- Cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau'r trydydd sector, gan ddarparu sylfaen sefydlog ar gyfer cymorth i oroeswyr.
- Llety diogel, llochesi ac opsiynau tai tymor hir sy'n cefnogi diogelwch uniongyrchol ac adferiad tymor hir.
- Gweithlu medrus, arbenigol sy'n cael ei gefnogi'n briodol ac sydd â'r capasiti i ddiwallu anghenion amrywiol goroeswyr.
- Cyfranogiad ystyrlon gan oroeswyr wrth ddylunio gwasanaethau, gan gynnwys cyfranogiad â thâl a strwythurau ffurfiol ar gyfer cydgynhyrchu.

Prosesau

- Cydgynhyrchu gwasanaethau gyda goroeswyr i lywio dyluniad, darpariaeth a sicrwydd ansawdd.
- Datblygu modelau cyllido hirdymor sy'n galluogi cynaliadwyedd yn hytrach nag ymatebion argyfwng tymor byr.
- Cydlynw llwybrau cymorth yn amlasiantaethol, gyda chefnogaeth dysgu ar y cyd, arweinyddiaeth a strwythurau gweithredu.
- Ymchwil a gwerthuso parhaus i gefnogi gwelliant ac atebolrwydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Allbynnau

- Modelau gwasanaeth wedi'u llywio gan oroeswyr sy'n adlewyrchu'n agosach anghenion, diogelwch a phrofiadau byw goroeswyr.
- Cynlluniau diogelwch a llesiant sy'n cefnogi goroeswyr yn ystod argyfwng uniongyrchol a thrwy gydol y broses adfer tymor hir.
- Rhaglenni hyfforddi, cymorth i'r gweithlu a systemau sicrhau ansawdd wedi'u llywio gan brofiadau goroeswyr.
- Mecanweithiau monitro, gwerthuso ac atebolrwydd, gan gynnwys adborth gan oroeswyr a gweithgarwch ymchwil.

Deilliannau

- Mynediad cyson at gymorth wedi'i lywio gan drawma sy'n diwallu anghenion ymarferol ac emosiynol goroeswyr ac yn cefnogi eu diogelwch.

- Gwasanaethau mwy ymatebol ac o ansawdd gwell, gyda chymorth sy'n adlewyrchu'n well yr hyn y mae goroeswyr yn dweud sydd ei angen arnynt.
- Mynediad tecach at gymorth ledled Cymru, gyda llai o amrywiadau sy'n gysylltiedig â lleoliad daearyddol ac amgylchiadau cymunedol.
- Gwell deilliannau i oroeswyr o ran llesiant, diogelwch ac adferiad tymor hir.
- Effeithiau hirdymor
- Diogelwch ac adferiad cynaliadwy i oroeswyr, beth bynnag eu cefndir, eu hamgylchiadau neu eu lleoliad.
- System gymorth effeithiol a chydgyssylltiedig, gyda gwasanaethau'n cydweithio ar draws asiantaethau.
- Seilwaith gwasanaethau sefydlog a chadarn, wedi'i gefnogi gan gyllid cynaliadwy a chapasiti digonol yn y gweithlu.
- Mwy o gapasiti mewn cymunedau i ddarparu cymorth amserol a phriodol i oroeswyr.

4.5 Risgiau ac ystyriaethau

Mae llwyddiant y Theori Newid yn dibynnu ar fynd i'r afael â'r risgiau allweddol a nodwyd gan oroeswyr, yn enwedig pan fo gweithredu'n ymddangos yn gadarn ond nad yw'n arwain at newid mewn ymarfer, yn lleihau'r baich ar oroeswyr nac yn gwella eu diogelwch.

- Hyfforddiant arwynebol nad yw'n newid ymddygiad, a all greu hyder ffug tra bo ymatebion yn parhau'n annigonol, heb eu llywio'n ddigonol gan drawma, ac yn gallu achosi niwed.
- Cydgynhyrchu symbolaidd, a all ail-drawmateiddio goroeswyr a thanseilio ansawdd a hygredd y gwaith o ddylunio gwasanaethau.
- Gorddibyniaeth ar wasanaethau'r trydydd sector sydd heb ddigon o gyllid, gan gynyddu'r risg o orweithio, colli staff a llai o wydnwch ar draws y system os na chaiff gwasanaethau craidd eu cefnogi'n gynaliadwy.
- Systemau datgysylltiedig sy'n cynyddu'r baich ar oroeswyr, gan gynnwys blinder yn sgil atgyfeiriadau, trothwyon anhyblyg a'r angen i ailadrodd eu profiadau o gamdriniaeth er mwyn cael cymorth.
- Rhwystrau cyfreithiol a sefydliadol, gan gynnwys mewn systemau annatganoledig megis y llysoedd teulu, a all alluogi cyflawnwyr i barhau i arfer rheolaeth ar ôl gwahanu.

Mae lliniaru'r risgiau hyn yn hanfodol os yw'r Theori Newid i gyflawni newid ystyrlon heb atgynhyrchu niwed, datgysylltiad nac anghydraddoldeb mewn mynediad at gymorth.

4.6 Sut y bydd newid yn digwydd (llwybrau achosol)

Mae'r Theori Newid yn rhagdybio bod newid yn digwydd drwy nifer fach o lwybrau achosol sy'n atgyfnerthu ei gilydd. Nodwyd y llwybrau hyn gan oroeswyr, ac maent yn cysylltu arferion beunyddiol, mynediad at gymorth ac amodau ehangach y system.

- Pan fydd gwasanaethau'n mabwysiadu arferion wedi'u llywio gan drawma sy'n seiliedig ar y dull "dechrau drwy gredu", mae goroeswyr yn fwy tebygol o ddatgelu, ymgysylltu â gwasanaethau a chael cymorth heb gael eu beio na'u hail-drawmateiddio.
- Pan gaiff anghenion sylfaenol goroeswyr eu diwallu, gan gynnwys tai, sefydlogrwydd ariannol ac iechyd, maent mewn sefyllfa well i gael cymorth, lleihau risg uniongyrchol a sicrhau deilliannau mwy diogel yn y tymor hir.
- Pan fydd llwybrau cymorth yn glir ac wedi'u cydgysylltu, gan gynnwys cymorth llywio drwy wasanaethau IDVA a threfniadau diogel ar gyfer rhannu data, gall goroeswyr gael cymorth amserol a phriodol, gyda llai o flinder yn sgil atgyfeiriadau a llai o angen i ailadrodd eu profiadau.
- Pan gynhelir atebolrwydd a buddsoddiad, gan gynnwys safonau ymarfer, trefniadau goruchwyllo a chamau gweithredu i fynd i'r afael â chamdriniaeth ar ôl gwahanu, mae ansawdd gwasanaethau'n gwella dros amser ac mae llai o gyfleoedd i gyflawnwyr barhau i arfer rheolaeth.

Gyda'i gilydd, mae'r llwybrau hyn yn cyfrannu at well diogelwch, trefniadau cyswllt mwy diogel i blant, llesiant cryfach a thrawsnewid systemig tymor hir, yn enwedig pan fydd iaith a diwylliant hefyd yn esblygu i gydnabod camdriniaeth nad yw'n gorfforol.

4.7 O ymgysylltu i weithredu

Mae'r Theori Newid wedi'i llywio'n uniongyrchol gan y dystiolaeth a gyflwynir yn Adran 3 a dylid ei defnyddio ochr yn ochr â'r camau gweithredu a nodir yn Adran 5.

5. Camau gweithredu ar gyfer cynllunio a pholisi yn y dyfodol

Mae'r adran hon yn trosi'r canfyddiadau yn Adran 3 a'r Theori Newid yn Adran 4 yn gamau gweithredu ymarferol ar gyfer polisi, cynllunio a gweithredu yn y dyfodol. Mae'n nodi lle mae angen newid ar draws ymarfer, prosesau, systemau a chymunedau er mwyn cryfhau'r amodau sydd eu hangen ar gyfer atal, diogelu a chefnogi.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil, mae'r argymhellion isod yn nodi blaenoriaethau i Lywodraeth Cymru eu hystyried o 2026 ymlaen. Mae rhai camau gweithredu yn perthyn i gyfrifoldebau datganoledig, tra bod eraill yn dibynnu ar gydweithio â Llywodraeth y DU a phartneriaid annatganoledig lle mae newid systemig yn dibynnu ar drefniadau cyfiawnder troseddol, plismona neu gyfiawnder teuluol.

Mae'r argymhellion wedi'u grwpio yn ôl 4 lefel newid: ymarfer, prosesau, systemau a chymuned. Mae pob argymhelliad yn gysylltiedig ag un neu fwy o bileri strategol Atal, Diogelu a Chefnogi, a'u bwriad yw cryfhau mecanweithiau allweddol y Theori Newid, gan gynnwys ymddiriedaeth goroeswyr, mynediad amserol at gymorth, ymatebion cydgysylltiedig, atebolrwydd, gallu'r gweithlu a dysgu addasol.

5.1 Prif negeseuon

- Dylai cynllunio yn y dyfodol roi blaenoriaeth i'r amodau systemig sy'n galluogi newid, gan gynnwys arfer sy'n canolbwyntio ar oroeswyr, atebolrwydd cliriach, cyllid cynaliadwy, gallu cryfach yn y gweithlu a gwell cydlynw rhwng asiantaethau.
- Mae angen i'r argymhellion fynd i'r afael â rhwystrau datganoledig ac annatganoledig, gan gydnabod bod nifer o ragdybiaethau'r Theori Newid yn dibynnu ar gydweithio y tu hwnt i wasanaethau datganoledig.
- Mae angen newid ar draws sawl lefel, o ryngweithiadau rheng flaen a llwybrau gwasanaeth i lywodraethu, data, datblygu'r gweithlu a normau cymunedol, os yw deilliannau bwriadedig y strategaeth am gael eu gwireddu.

5.2 Camau gweithredu ar lefel ymarfer

5.2.1 Sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol rheng flaen yn cael hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma ac arweiniad goroeswyr (Atal, Diogelu a Chefnogi)

Dylai hyfforddiant fynd y tu hwnt i godi ymwybyddiaeth er mwyn datblygu dealltwriaeth ymarferol o drawma, deinameg camdriniaeth ac ymatebion priodol. Mae hyn yn cefnogi mecanwaith craidd y Theori Newid drwy gynyddu ymddiriedaeth goroeswyr, gwella ansawdd ymatebion cyntaf a lleihau'r risg o ryngweithiadau niweidiol neu ddiystyriol.

5.2.2 Safoni ac ariannu darpariaeth IDVA ac ISVA yn ddigonol ledled Cymru (Diogelu)

Mae rolau eiriolaeth annibynnol yn hollbwysig er mwyn helpu goroeswyr i lywio systemau cymhleth a dylent fod ar gael yn gyson ledled Cymru. Mae hyn yn cryfhau rhagdybiaeth y Theori Newid fod goroeswyr yn fwy tebygol o gael mynediad at gymorth ac ymgysylltu ag ef pan fo gwasanaethau eiriolaeth dibynadwy ar gael.

5.2.3 Gwarantu mynediad at gymorth ymarferol, gan gynnwys tai, diogelwch a chymorth ariannol (Cefnogi)

Dylid trin anghenion uniongyrchol megis llety diogel, lleoedd mewn llochesi, bwyd a chymorth ariannol fel elfennau craidd o'r ymateb yn hytrach nag ychwanegiadau dewisol. Mae hyn yn ategu rhagdybiaeth y Theori Newid na all goroeswyr ymgysylltu'n ddiogel â llwybrau adfer neu gyfiawnder tymor hir oni bai bod diogelwch a sefydlogrwydd sylfaenol ar waith.

5.2.4 Gwella trefniadau diogelu ac ymatebion mewn ysgolion a lleoliadau gofal iechyd (Atal)

Dylai ysgolion a gweithwyr iechyd proffesiynol fod â'r gallu i adnabod camdriniaeth, ymateb yn ddiogel ac osgoi arferion sy'n rhoi goroeswyr neu blant mewn mwy o berygl. Mae hyn yn cefnogi adnabod yn gynharach, datgelu mwy diogel a llwybr atal cryfach o fewn y Theori Newid.

5.3 Camau gweithredu ar lefel prosesau

5.3.1 Cam 5: Ymgorffori llais goroeswyr wrth ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau (Atal a Chefnogi)

Dylai cydgynhyrchu fod yn ystyrlon, wedi'i ariannu'n briodol ac wedi'i ymgorffori ym mhob cam o'r gwaith o ddylunio, darparu ac adolygu gwasanaethau. Mae hyn yn cryfhau mecanwaith y Theori Newid drwy sicrhau bod gwasanaethau'n fwy perthnasol, dibynadwy ac effeithiol pan gânt eu llywio gan brofiadau byw goroeswyr.

5.3.2 Cam 6: Creu llwybrau clir, wedi'u llywio gan drawma, i mewn i wasanaethau a thrwyddynt (Atal, Diogelu a Chefnogi)

Ni ddylid disgwyl i oroeswyr lywio systemau datgysylltiedig ar eu pennau eu hunain. Dylai fframwaith llwybrau wedi'i lywio gan oroeswyr nodi rolau, cyfrifoldebau, prosesau atgyfeirio a threfniadau atebolrwydd yn glir.

5.3.3 Cam 7: Penodi arweinwyr VAWDASV ym mhob gwasanaeth cyhoeddus perthnasol (Diogelu)

Dylai arweinwyr dynodedig gefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth, cydlynu gweithgarwch, gweithredu fel pwyntiau cyswllt i staff a goroeswyr, a chryfhau atebolrwydd o fewn asiantaethau ac ar eu traws.

5.3.4 Cam 8: Diwygio meini prawf cymhwysedd a throthwyon ar gyfer cael cymorth (Diogelu a Chefnogi)

Dylai gwasanaethau fod yn hygyrch i oroeswyr sydd wedi profi camdriniaeth hanesyddol, sydd ag anghenion cymhleth, yr aseswyd eu bod mewn llai o berygl, neu sydd wedi symud rhwng ardaloedd.

5.4 Camau gweithredu ar lefel systemau

5.4.1 Cam 9: Diffinio'r Dull System-Gyfan Cynaliadwy ac egluro atebolrwydd (Atal a Diogelu)

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am gyflawni pob deilliant, sut y caiff y gwaith o gyflawni ei fonitro, a sut mae mynd i'r afael â methiannau. Bydd hyn yn cryfhau'r Theori Newid drwy wneud rhagdybiaethau'r system yn eglur a sefydlu mecanweithiau cliriach ar gyfer atebolrwydd, craffu ac addasu'r dull gweithredu lle bo angen.

5.4.2 Cam 10: Cydweithio â Llywodraeth y DU i ddiwygio'r system llysoedd teulu a lliniaru niwed yn y cyfamser (Atal a Diogelu)

Nododd goroeswyr fod llysoedd teulu yn ffynhonnell sylweddol o niwed parhaus, yn enwedig mewn perthynas â chamdriniaeth ar ôl gwahanu a threfniadau cyswllt â phlant. Mae hyn yn mynd i'r afael â risg hollbwysig yn y Theori Newid: y gall systemau ehangach danseilio diogelwch ac adferiad oni bai bod rhwystrau annatganoledig yn cael sylw ochr yn ochr ag ymatebion datganoledig.

5.4.3 Cam 11: Mynd i'r afael â bylchau cyfreithiol a pholisi sy'n galluogi camdriniaeth barhaus (Atal)

Dylai gwaith datblygu polisi yn y dyfodol ystyried sut y gellir defnyddio systemau tai, cyfrifoldeb rhiant, cynhaliaeth plant a systemau cysylltiedig i barhau i arfer rheolaeth ar ôl gwahanu. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y Theori Newid lle mae camdriniaeth yn parhau am nad yw fframweithiau polisi ehangach eto'n cyd-fynd â diogelwch goroeswyr.

5.4.4 Cam 12: Gwella cyfathrebu rhwng asiantaethau a rhannu data'n ddiogel (Diogelu a Chefnogi)

Ni ddylai fod yn rhaid i oroeswyr ailadrodd eu profiadau er mwyn cael cymorth. Byddai protocolau ar y cyd a threfniadau diogel ar gyfer rhannu gwybodaeth yn cryfhau mecanwaith y Theori Newid sy'n rhagdybio bod ymatebion cydgysylltiedig yn lleihau ail-drawmateiddio, yn gwella parhad cymorth ac yn cynyddu hyder mewn gwasanaethau.

5.4.5 Cam 13: Datblygu seilwaith data a thystiolaeth VAWDASV cadarnach (Atal)

Byddai data gwell sy'n benodol i Gymru, gan gynnwys dadgyfuno manylach, systemau adrodd cadarnach a setiau data mwy cynhwysfawr ar gyflawnwyr, yn cefnogi mecanwaith allweddol yn y Theori Newid: y gallu i fonitro newid, targedu camau gweithredu ac addasu'r gwaith o weithredu mewn ymateb i dystiolaeth.

5.4.6 Cam 14: Ariannu a chadw gweithlu medrus sydd wedi'i gefnogi'n briodol (Diogelu a Chefnogi)

Dylai cyflog, amodau gwaith, cymorth llesiant a datblygiad proffesiynol alluogi gwasanaethau i gadw arbenigedd arbenigol a lleihau trosiant staff. Mae hyn yn cryfhau rhagdybiaeth y Theori Newid fod gweithlu medrus, cyson a digonol yn hanfodol i ansawdd gwasanaethau, ymddiriedaeth goroeswyr a pharhad cymorth.

5.4.7 Cam 15: Mireinio eglurder, cwmpas a chydlynid y strategaeth (Atal)

Dylai'r strategaeth nesaf nodi amcanion clir, blaenoriaethau mesuradwy a chydlynid cryfach rhwng y pileri strategol, y ffrydiau gwaith a'r deilliannau bwriadedig. Byddai hyn yn gwneud y Theori Newid yn fwy gweithredol drwy egluro sut y disgwylir i'r gweithgarwch a gynlluniwyd arwain at newid.

5.4.8 Cam 16: Datblygu fframwaith monitro a gwerthuso cynhwysfawr (Atal, Diogelu a Chefnogi)

Dylai'r strategaeth gynnwys dangosyddion mesuradwy ar gyfer pob piler, ochr yn ochr â gweithgarwch ymchwil a gwerthuso sy'n olrhain cynnydd dros amser. Mae hyn yn cefnogi mecanwaith dysgu addasol y Theori Newid drwy alluogi profi ac adolygu cynnydd, rhagdybiaethau a chanlyniadau anfwriadol.

5.4.9 Cam 17: Egluro rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid (Atal a Diogelu)

Dylai'r strategaeth wahaniaethu'n glir rhwng y grwpiau y bwriedir iddynt elwa a'r sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni. Byddai hyn yn cryfhau'r Theori Newid drwy leihau amwysedd ynghylch pwy y disgwylir iddynt weithredu, pwy y disgwylir iddynt elwa a ble mae atebolrwydd yn gorwedd.

5.4.10 Cam 18: Datblygu modelau cyllido hirdymor a chynaliadwy (Atal)

Dylai trefniadau cyllido gefnogi cynllunio hirdymor, lleihau ansefydlogrwydd a chyd-fynd â realiti darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cefnogi rhagdybiaeth ganolog yn y Theori Newid na ellir cynnal newid pan fo gwasanaethau'n gweithredu o fewn cylchoedd cyllido tymor byr neu ansicr.

5.4.11 Cam 19: Sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer pob piler strategol (Atal)

Mae atal, diogelu a chefnogi oll yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, ond at ddibenion gwahanol ac ar amserlenni gwahanol. Mae hyn yn adlewyrchu rhagdybiaeth y Theori Newid fod cynnydd yn dibynnu ar fuddsoddiad cytbwys ar draws y system gyfan, yn hytrach na chanolbwyntio adnoddau ar un rhan o'r ymateb yn unig.

5.4.12 Cam 20: Cynnal Theori Newid fyw ac addasol (Atal a Chefnogi)

Dylai'r Theori Newid weithredu fel fframwaith byw a all esblygu mewn ymateb i dystiolaeth newydd, risgiau sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau polisi. Byddai hyn yn atgyfnerthu dysgu addasol drwy sicrhau y gellir adolygu a mireinio rhagdybiaethau, mecanweithiau a blaenoriaethau dros amser.

5.5 Camau gweithredu ar lefel gymunedol

5.5.1 Cam 21: Adolygu'r derminoleg i adlewyrchu'r sbectrw m llawn o gamdriniaeth (Atal)

Nododd goroeswyr a rhanddeiliaid y dylai'r iaith a ddefnyddir adlewyrchu'n well fathau o gamdriniaeth nad ydynt yn gorfforol, gan gynnwys rheolaeth drwy orfodaeth, stelcio, aflonyddu, camdriniaeth seicolegol a chamdriniaeth a hwylusir gan dechnoleg.

5.5.2 Cam 22: Cydgynhyrchu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus gyda goroeswyr a chymunedau (Atal)

Dylai ymgyrchoedd fod yn berthnasol i'r cyd-destun lleol, yn weladwy ac yn cael eu gwerthuso i asesu eu heffaith, gyda negeseuon wedi'u llywio gan oroeswyr ac wedi'u teilwra i anghenion gwahanol gymunedau.

5.5.3 Cam 23: Ehangu a hyrwyddo mannau diogel a phwyntiau mynediad cymunedol (Atal a Diogelu)

Dylid gwneud mentrau megis mannau diogel mewn lleoliadau cymunedol yn fwy gweladwy a hygyrch. Mae hyn yn cryfhau rhagdybiaeth y Theori Newid fod goroeswyr yn fwy tebygol o geisio cymorth pan mae llwybrau at gymorth dibynadwy, hygyrch a hawdd eu defnyddio ar gael.

5.5.4 Cam 24: Cefnogi eiriolaeth a rhwydweithiau cymheiriaid dan arweiniad goroeswyr (Cefnogi)

Gall goroeswyr chwarae rhan bwysig wrth lywio newid diwylliannol a chefnogi eraill, ond rhaid iddynt allu gwneud hynny'n ddiogel a chael cymorth priodol. Mae hyn yn adlewyrchu mecanwaith y Theori Newid sy'n cydnabod y gall arweinyddiaeth goroeswyr gryfhau ymddiriedaeth, perthnasedd a newid cymunedol pan gaiff ei chefnogi'n briodol.

Cyfeiriadau

- Campo, M., & Tayton, S. (2016). *Meta-evaluation of existing interagency partnerships, collaboration, coordination and/or integrated interventions and service responses to violence against women: Key findings and future directions*. Australia's National Research Organisation for Women's Safety (ANROWS). Sydney, Awstralia.
- Prifysgol Caerdydd. (2023). *The Cardiff Model for violence prevention*. Violence Research Group, Prifysgol Caerdydd. Caerdydd, Cymru.
- Chung, D., Zufferey, C., & Franzway, S. (2019). *Policing repeat and high-risk family violence: police and service-sector perceptions of a coordinated model*. *Police Practice and Research*, 22(1), 363–377.
- Cordis Bright. (2019). *What works in providing whole system approaches to domestic abuse? Literature review commissioned by the UK Government*. Llundain, Y Deyrnas Unedig.
- Doroudchi, A., Zarenezhad, M., Hosseinienezhad, H., Malekpour, A., Ehsaei, Z., Kaboodkhani, R., & Valiei, M. (2023). *Psychological complications of the children exposed to domestic violence: a systematic review*. *Egypt Journal of Forensic Sciences*, 13(1), 26. doi:10.1186/s41935-023-00343-4.
- Fitz-Gibbon, K., & Meyer, S. (2023). *The hard and complex work of implementing new multi-agency risk assessment approaches to policing domestic abuse*. *BMC Public Health*, 23(1). Ar gael yn: <https://pmc.ncbi.nlm.nih.gov/>
- Fitz-Gibbon, K., Meyer, S., & Maher, J. (2024). *'It was a challenge to look at things from a perpetrator perspective': The problem of holding domestically abusive men to account in multi-agency partnership work*. *Journal of Gender-Based Violence*, 8(2), 254–269.
- Garcia-Moreno, C., Zimmerman, C., Morris-Gehring, A., Heise, L., Amin, A., Abrahams, N., Montoya, O., Bhate-Deosthali, P., Kilonzo, N., & Watts, C. (2015). *Addressing violence against women: A call to action*. *The Lancet*, 385(9978), 1685–1695.
- Grace, K., Chowdhury, R., & Anderson, K. (2024). *A realist evaluation of a "whole health" response to domestic violence and abuse in the UK*. *BMC Public Health*, 24(1).
- Y Swyddfa Gartref. (2020). *Violence Reduction Unit evaluation, 2019 to 2020*. Llywodraeth y DU. Llundain, Y Deyrnas Unedig.
- Melendez-Torres, G. J., Hewitt, G., Hallingberg, B., Anthony, R., Collin, S. M., Hall, J., Murphy, S., & Moore, G. F. (2025). *What works to prevent violence against women, domestic abuse and sexual violence? A systematic umbrella review*. *Trauma, Violence, & Abuse*.
- Merseyside Violence Reduction Partnership. (2023). *Whole system evaluation report*. Lerpwl, Y Deyrnas Unedig.

- Milani, M., Lunn, C., Satherley, L., Sheridan, J., & Tseliou, F. (2024). *Integrated system responses for families impacted by violence: A scoping review*. *BMC Public Health*, 24(1).
Ar gael yn: <https://pmc.ncbi.nlm.nih.gov/>
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Northumbria. (2019). *Domestic abuse: A whole system approach – Overall programme evaluation*. Newcastle upon Tyne, Y Deyrnas Unedig.
- O'Campo, P., Kirst, M., Tsamis, C., Chambers, C., & Ahmad, F. (2011). *Implementing successful intimate partner violence screening programs in health care settings: Evidence generated from a realist-informed systematic review*. *Social Science & Medicine*, 72(6), 855–866.
- Oliver, R., Alexander, B., Roe, S., & Wlasny, M. (2019). *The economic and social costs of domestic abuse*. Home Office Research Report 107. Llundain: Y Swyddfa Gartref. Ar gael yn: <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5f637b8f8fa8f5106d15642a/horr107.pdf>
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025a). *Domestic abuse in England and Wales overview: November 2025*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwalesoverview/november2025>
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025b). *Crime in England and Wales: year ending June 2025*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingjune2025#domestic-abuse>
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025c). *Crime Survey for England and Wales (CSEW)*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingjune2025>
- Rape Crisis England & Wales. (2025). *Lifetime cost of sexual violence revealed*. Ar gael yn: <https://rapecrisis.org.uk/news/lifetime-cost-of-sexual-violence-revealed/>
- Pell, C., Straus, L., Andrew, E. V. W., Meñaca, A., & Pool, R. (2024). *Effective approaches to social behaviour change communication to prevent and respond to neglected tropical diseases, malaria and other poverty-related diseases: A qualitative evidence synthesis*. *BMJ Global Health*, 9(1).
- Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2024). *Evaluation of the South Wales Violence Prevention Units*. Caerdydd, Cymru.
- SafeLives. (2016). *A Cry for Health: Why we must invest in domestic abuse services in hospitals*. Bryste: SafeLives. Ar gael yn: <https://safelives.org.uk/wp-content/uploads/A-Cry-for-Health-full-report.pdf>
- Llywodraeth yr Alban. (2016). *Caledonian System evaluation: Analysis of a programme for tackling domestic abuse in Scotland*. Caeredin, Yr Alban.

Stanley, N., Miller, P., Richardson Foster, H., & Thomson, G. (2019). *A review of UK based multi-agency approaches to early intervention in domestic abuse: Lessons to be learnt from existing evaluation studies*. *Aggression and Violent Behaviour*, 46, 140–155.

Wales Violence Prevention Unit. (2021). *What works to prevent violence against women, domestic abuse and sexual violence (VAWDASV)? Systematic evidence assessment*. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caerdydd, Cymru.

Cymorth i Ferched Cymru. (2020). *Change that lasts: A survivor-centred response to domestic abuse in Wales*. Caerdydd, Cymru.

Women's Budget Group. (2025). *Invest to Protect: Funding Specialist Services to Reduce the £440 Billion Cost of Sexual Violence: UK Policy Briefing*. Ar gael yn:
<https://www.wbg.org.uk/article/sexual-violence-and-abuse-costs-england-and-wales-over-400-billion-new-research-reveals/>

Atodiad A:

Theori Newid ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Prif ragdybiaethau a rhagofynion: yr amodau sylfaenol sydd eu hangen i'r ToC weithio fel y dylai

- Mae llais didwyll a chynrychiadol y goroeswyr wedi'i wreiddio ar draws y ToC
- Mae anghenion sylfaenol goroeswyr yn cael eu cwrdd (fel bwyd, sicrwydd llety, gofal plant a sicrwydd economaidd a sefydlogrwydd ariannol)
- Mae pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol yn dilyn protocol credu'n gyntaf ar y cyswllt cyntaf
- Goroeswyr yn cyfrannu'n weithredol at ddylunio, profi ac archwilio gwasanaeth, yn enwedig hyfforddiant, sy'n adlewyrchu'r egwyddor o 'ddim amdanom ni hebddom ni'.
- Cyllid parhaus: Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA), gwasanaethau lloches, cymorth tai a hyfforddiant yn gweithredu gyda chyllid parhaus a digonol.
- Mae gan Gymru ddulliau sefydlog yn eu lle i liniaru cyfyngiadau llys teulu (fel eiriolaeth a gwasanaethau cymorth)
- Mae systemau atebolrwydd yn eu lle i fynd i'r afael â methiant gweithwyr proffesiynol i weithredu
- Mae gan wasanaethau gofal iechyd ddigon o adnoddau i roi ymateb system-gyfan cynaliadwy.

Cynulleidfa darged

- Goroeswyr cam-drin domestig
- Paneli goroeswyr

- Y cyhoedd
- Plant a phobl ifanc
- Cymunedau
- Plant a phobl ifanc yn wynebu rhwystrau mynediad

Rhanddeiliaid allweddol

- Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol
- Byrddau Rhanbarthol ac awdurdodau lleol
- Gwasanaethau trydydd sector arbenigol
- Plismona yng Nghymru
- GIG Cymru a Byrddau Iechyd
- Addysg, iechyd a thai
- System Cyfiawnder Troseddol
- Llywodraeth y DU

Risgiau a heriau trawsbynciol

- Pur anaml y profir cymorth deall trawma ac mae'n aml yn cael ei gam-ddeall

- Dull System-Gyfan Cynaliadwy Annigonol: gorfodir goroeswyr i geisio deall systemau darniog ar ben eu hunain
- Mae dulliau anghyson ac arwynebol o gynnwys goroeswyr a chyd-gynhyrchu'n arwain at brofiadau negyddol i oroeswyr sy'n adrodd teimlo'n ddibwys ac nad ydynt yn cael eu cynnwys yn iawn
- Mae cymhwyso ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn amrywiol ar draws sectorau a rhanbarthau'n gwneud i oroeswyr gwestiynu ydy gwasanaethau'n wir seiliedig ar dystiolaeth.

Problemau a materion sydd angen sylw: Prif faterion a gododd yn ystod yr ymchwil

Atal

- Iaith amwys sy'n amharu ar ddealltwriaeth
- Agweddau diwylliannol a chymdeithasol, menyw-gasineb systemig a gwahaniaethu croestoriadol sy'n dibwysleisio cam-drin
- Diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus o beth yw perthnasoedd iach a'r sbectwm llawn o ymddygiad camdriniol
- Bylchau sylweddol mewn ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n amrywio'n ddaearyddol
- Ymdrechion atal ddim yn cadw ar y blaen i fathau newydd o gam-drin (fel cam-drin drwy dechnoleg, harasio ar-lein, stelcian gyda chymorth AI)
- VAWDASV ddim yn cael ei gydnabod yn iawn i fod wedi'i wreiddio mewn anghydraddoldeb rhwng y rhywiol
- Anghysondeb daearyddol o ran cyrhaeddiad a gwelededd ymgyrchoedd ymwybyddiaeth

Amddiffyn

- Bylchau atebolrwydd a waethygir gan dirlun polisi ar faterion sydd wedi eu gatganoli (fel iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a tai) a heb gael eu datganoli (fel cyfiawnder a phlisma)

- Methiannau system yn arwain at ail-drawmateiddio goroeswyr
- Heriau gweithlu yn ymwneud â chadw staff, capasiti a hyfforddiant
- Rhwystrau mynediad: anghysondebau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol
- Cydlynu system-gyfan annigonol
- Data a thystiolaeth VAWDASV: bylchau presennol a'r her sylfaenol o gasglu a dadansoddi data VAWDASV (fel problemau tan-adrodd a cham-ddosbarthu)

Cymorth

- Gwasanaethau'n cael eu darparu'n anwastad oherwydd cyllid a daearyddiaeth
- Cyfyngiadau cyllid: tymor byr, cystadleuol, annigonol
- Cyd-gynhyrchu symbolaidd ac annidwyll gyda goroeswyr, yn hytrach nag ystyrlon
- Pwysau gweithlu yn y gwasanaethau cymorth ac arbenigol

Mewnbynnau: Adnoddau fydd yn cael eu defnyddio

Atal

- Cyllid parhaus ar gyfer rhaglenni atal ac addysg
- Adnoddau ar gyfer dylunio ymgyrchoedd a phrosiectau wedi eu goleuo gan oroeswyr
- Cyllid ar gyfer prosiectau ymwybyddiaeth lleol a rhanbarthol

- Llais goroeswyr wedi'i wreiddio mewn dylunio a darparu
- Ffrydiau gwaith VAWDASV (ffocws ar atal, plant a phobl ifanc, bygythiadau technoleg)
- Cynllunio gweithlu (ffocws ar atal)
- Meithrin gallu ar gyfer mudiadau cymunedol

Amddiffyn

- Seilwaith o gydweithrediad amlasiantaethol (iechyd a gofal cymdeithasol, y system cyfiawnder troseddol)
- Hwyluso i sicrhau cydlynu rhwng llywodraethau (Cymru a'r DU)
- Hwyluso i gynorthwyo cydlynu rhwng ac ar draws adrannau (yng Nghymru)
- Data VAWDASV: systemau trylwyr ar gyfer monitro a chraffu a systemau Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI); ymchwil a gwerthuso
- Systemau TG a rhannu gwybodaeth
- Rolau VAWDASV penodol mewn asiantaethau'n gyfrifol am weithredu

Cymorth

- Cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i oroeswyr i helpu i gwrdd ag anghenion sylfaenol
- Cynaliadwyedd a buddsoddi yn y trydydd sector
- Seilwaith gwasanaethau amlasiantaethol (fel sêl bendith arweinwyr, rhannu dysgu)

- Adnoddau ffisegol (llety diogel, llety hirdymor, llochesi)
- Cyd-gynhyrchu: Goroeswyr yn cael eu talu i gyfranogi
- Capasiti gweithlu a sgiliau arbenigol

Prosesau / gweithgareddau allweddol: Ffactorau hwyluso allweddol ar gyfer darparu effeithiol yn unol ag amcanion

Atal

- Adolygu'r iaith → datblygu geirfa neu geiriadur wedi'i gytuno
- Ailwampio'r derminoleg o "trais" i "cam-drin" er mwyn adlewyrchu'r sbectrwm llawn o ymddygiad niweidiol
- Dylunio rhaglenni atal ac ymyrryd yn gynnar gyda mewnbwn goroeswyr → darparu addysg priodol i oed → targedu unigolion / grwpiau risg
- Cydweithrediad amlasiantaethol → adolygu meddwl strategol a chynllunio gweithredol
- Ymgynghori â rhanddeiliaid → sicrhau dulliau diwylliant-ymatebol
- Data VAWDASV: ymchwil i strategaethau → gwneud gwelliannau ar sail tystiolaeth → hwyluso rhannu dysgu

Amddiffyn

- Mapio rhanddeiliaid a systemau → llinellau cyfrifoldeb mwy eglur → cyhoeddi disgwyliadau gwasanaeth
- Dylunio hyfforddiant ar y cyd â goroeswyr → a'i ddarparu i asiantaethau, camdrinwyr a rhanddeiliaid allweddol (fel gweithwyr iechyd proffesiynol) → gwella agweddau (fel amheuaeth, beio'r dioddefwr) → hyrwyddo'r egwyddor 'Credun gyntaf' ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi goroeswyr

- Creu dulliau atebolrwydd → cynnal archwiliadau asiantaeth → sylw i fethiannau system
- Gweithio'n amlasiantaethol → cyd-benderfyniadau → ymatebion cydlynus

Cymorth

- Cyd-gynhyrchu gyda goroeswyr → dylunio gwasanaethau → Sicrwydd Ansawdd yn sicrhau effeithiolrwydd
- Sicrhau cyllid hirdymor → gwasanaethau comisiwn cynaliadwy → sicrhau cynaliadwyedd ac ansawdd gwasanaethau cymorth
- Paneli goroeswyr ynghlwm wrth asiantaethau allweddol i dywys gweithredu → sicrhau atebolrwydd
- Dadansoddi data VAWDASV → gwelliannau ar sail tystiolaeth → rhannu dysgu ar draws gwahanol asiantaethau a gwasanaethau

Allbynnau: Mesurau clir drwy fewnbynnau a phrosesau effeithiol tuag at ganlyniadau

Atal

- Geirfa a geiriadur wedi'i gytuno ar gyfer terminoleg VAWDASV
- Gweithredu rhaglenni atal ac ymyrryd yn gynnar effeithiol
- Deunyddiau cyfathrebu hygyrch wedi eu targedu'n well (e.e. anghenion dysgu ychwanegol, iaith)
- Adnoddau marchnata ac ymgyrchu
- Cynlluniau hyfforddiant ar gyfer addysg atal
- Ymchwil i ba mor effeithiol yw rhaglenni atal ac ymyrryd yn gynnar
- Cynlluniau gweithlu strategol

Amddiffyn

- Mapiau rhanddeiliaid wedi eu cyhoeddi'n dangos rolau a chyfrifoldebau asiantaethau
- Disgwyliadau gwasanaeth wedi eu cyhoeddi ar beth y mae pob asiantaeth yn gyfrifol amdano
- Cytundebau a phrotocolau rhannu data yn eu lle
- Rhaglenni hyfforddiant 'deall trawma'
- Canllawiau a memoranda dealltwriaeth (MoU) amlasiantaethol
- Llwybrau clir ar gyfer cymryd camau yn erbyn stelcian
- Baneri trawma mewn cofnodion meddygol

Cymorth

- Lles goroeswyr (gan gynnwys cwrdd ag anghenion sylfaenol) a chynlluniau diogelwch
- Mae'r broses o lunio a chytuno ar Gylch Gorchwyl ar gyfer paneli goroeswyr yn helpu i ffurfioli eu rôl a'u cyfrifoldebau
- Arolwg goroeswyr blynyddol (gyda lefelau hyder mewn adrodd / datgelu)
- Rhaglenni hyfforddiant wedi eu dylunio gan oroeswyr
- Rhaglenni ymyriadau ar gyfer camdrinwyr
- Data VAWDASV: Adroddiadau monitro a gwerthuso
- Cynlluniau lles gweithlu a llwybrau gyrfaol

- Archwiliadau annibynnol a dulliau atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau cymorth

Canlyniadau: Canlyniadau mesuradwy'r mewnbynnau, prosesau a'r allbynnau tuag at gyflawni'r amcanion

Atal

- Iaith gyffredin wedi'i chytuno a'i mabwysiadu gan asiantaethau
- Mwy o ymgysylltu â grwpiau anoddach i'w cyrraedd (dynion a bechgyn)
- Systemau monitro a gwerthuso trylwyr: mwy o dystiolaeth bod dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar (beth sy'n gweithio) yn effeithiol
- Croestoriadedd yn cael sylw priodol, yn cael ei ystyried ac yn derbyn ymateb drwy fesurau i fynd i'r afael â VAWDASV
- Mwy o gyllid a chyllid mwy cyfartal yn cael ei ddyrannu i wasanaethau cymorth ac arbenigol

Amdiffyn

- Partneriaethau aml-asiantaethol mwy effeithiol yn deall rolau a chyfrifoldebau'n well
- Mynediad at gymorth ddim yn gofyn na'n dibynnu ar adrodd neu ddatgelu cam-drin yn ffurfiol
- Dulliau adrodd mwy effeithiol yn ymwneud â Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVAs) a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVAs)
- Mynediad at wasanaethau mwy cyfartal ar draws Cymru (sylw i anghysondebau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol)
- Llwyddo i gadw mwy o'r gweithlu gwasanaethau cymorth ac arbenigol
- Systemau monitro a gwerthuso trylwyr: pob canlyniad yn cael ei dracio a'i fesur (fel arolwg goroeswyr blynyddol, arolwg hydredol o asiantaethau i fesur cyfrifoldebau)

Cymorth

- Anghenion sylfaenol, ffisiolegol, diogelwch a sicrwydd goroeswyr yn cael eu cwrdd yn gyson
- Goroeswyr yn gallu derbyn cymorth amserol, cyfartal ac effeithiol sy'n 'deall trawma'
- Gwasanaethau'n adlewyrchu anghenion, diogelwch a llais y goroeswyr
- Dylunio a chyd-gynhyrchu gyda goroeswyr i'w weld yn yr allbynnau
- Mynediad gwell at wasanaethau cymorth
- Canlyniadau lles ac iechyd gwell i'r boblogaeth yn gyffredinol

Effeithiau hirdymor: Beth fydd y dystiolaeth o newid cynaliadwy a pharhaus gyda phob amcan?

Atal

- Lleihad amlwg mewn pob math o gam-drin ar draws yr holl grwpiau demograffig
- Tystiolaeth o newid cymdeithasol: normau menyw-gasineb yn cael eu dileu
- Newid diwylliant yn cydnabod bod VAWDASV yn annerbyniol
- Mwy o gydraddoldeb rhwng y rhywiau o ran agwedd ac ymddygiad
- Capasiti cymunedol mwy parhaus i atal cam-drin

Amddiffyn

- Tystiolaeth o adrodd neu datgelu'n amlach (fel dioddefwyr yn teimlo'n fwy hyderus i adrodd)
- Goroeswyr yn adrodd eu bod yn teimlo'n fwy diogel
- Tystiolaeth bod camdrinwyr yn newid eu hymddygiad
- Canlyniadau mwy cyfartal a mynediad mwy cyfartal at wasanaethau
- Atebolrwydd proffesiynol yn cael ei gynnal

Cymorth

- Tystiolaeth o gynllunio cynaliadwy hirdymor
- Pob grŵp yn adrodd diogelwch a lles gwell
- Gweithio amlasiantaethol effeithiol
- Cyllid / seilwaith trydydd sector cynaliadwy
- Effeithiau'n cael eu tracio drwy fonitro a gwerthuso trylwyr (fel arolygon hydredol)
- Capasiti traws-gymunedol i gefnogi goroeswyr
- Mwy o adrodd bod gwasanaethau cymorth yn well

Gwybodaeth ychwanegol

Deall y ToC VAWDASV

Mae'r Theori Newid (ToC) VAWDASV wedi'i drefnu o gwmpas tri philer strategol y Strategaeth VAWDASV: Atal, Amddiffyn a Chymorth ar gyfer mynd i'r afael â VAWDASV. Dylai'r ToC gael ei ddarllen o'r top i'r gwaelod, i ddangos sut y bydd pob lefel yn arwain at effeithiau hirdymor disgwylledig pob piler. Mae'r ToC wedi'i ddylunio i gofnodi cysylltiadau penodol a disgwylledig o broblemau i'r effaith. Cafodd y ToC ei ddatblygu a'i gyd-greu gyda rhanddeiliaid er mwyn cysoni'r amrywiol faterion ac elfennau â'r tri philer. Dylid nodi y gall y materion a'r elfennau hyn fod yn aml-ffactor ac y bydd yr atebion yn rhyng-gysylltu a chyd-gyffwrdd gan ddibynnu ar y rhanddeiliaid, dulliau a'r cyd-destun penodol. Er enghraifft, bydd elfennau yn Cymorth yn cysylltu i'r elfennau yn Amddiffyn a bydd y perthnasoedd hyn yn amrywio. Bydd sut y dehonglir hyn yn cael ei gyflyru gan ffactorau / rhanddeiliaid lleol, gyda'r rhanddeiliaid yn penderfynu eu cyfranogiad ar sail rolau a chyfrifoldebau unigol, a gan ystyried sut y gallai'r elfennau (fel mewnbynnau, allbynnau gweithgaredd) weithio rhwng ac ar draws pileri.

Amcanion Strategaeth VAWDASV 2022-2026

- Herio agwedd y cyhoedd at gam-drin (gan gynnwys rheoli drwy orfodaeth, stelcian, harasio, cam-drin domestig ac economaidd, trais corfforol / rhywiol, a cham-drin ar sail anrhydedd) yng nghyswllt pob rhywedd a grŵp oed ar draws poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth a chreu gofod i gael trafodaeth gyhoeddus er mwyn lleihau cam-drin.
- Cynyddu ymwybyddiaeth mewn plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol positif.
- Cynyddu'r ffocws ar ddal yr unigolion sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a allai ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.
- Gwneud ymyrryd yn gynnar ac atal yn flaenoriaeth.
- Gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ymateb yn effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.
- Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau croestoriadol, ymatebol, seiliedig ar gryfderau ac anghenion, o ansawdd uchel ac wedi eu cyllido'n briodol, ar draws Cymru.

